# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# SUT GWNAETHOM NI YN 2016-17?

# ASESIAD O BERFFORMIAD YR AWDURDOD

DRAFT

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Fersiynau mewn gwahanol ddiwyg, a gwahoddiad i gyfrannu | |
| | |
| **Adran 1 – Cyflwyniad** | **4** |
| | |
| **Adran 2 – Meincnodi - Sut mae GTA Gogledd Cymru yn cymharu?** | **13** |
| | |
| **Adran 3 – Y Cynnydd mewn perthynas ag Amcanion Gwella** | **28** |
| | |
| **Adran 4 – Y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau** | **49** |
| | |
| **Adran 5 – Crynodeb o wybodaeth am berfformiad** | **57** |
| | |
| **Adran 6 –** | **68** |
| | |
| **Adran 7 –** | **81** |
| | |
| **Adran 8 – Beth a ddywedodd pobl eraill amdanom yn 2016-17** | **88** |
| | |
| **Adran 9 – Gwybodaeth arall** | **89** |
| | |
| **Adran 10 – Egluro termau** | **94** |


**Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi**

DRAFT

## FERSIYNAU MEWN GWAHANOL DDIWYG

Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael:

- ar bapur ac yn electronig;
- yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- fel taflen grynodeb fer gyda'r prif bwyntiau;
- yn hawdd drwy ein gwefan.

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Gallwch ein dilyn hefyd ar:
Twitter @northwalesfire
www.facebook.com/northwalesfireservice

DRAFFT

### GWAHODDIAD I GYFRANNU AT WELLA EIN GWASANAETHAU

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn wastad yn chwilio am ffyrdd i wella ei weithrediadau a'r modd y mae'n cyflwyno gwasanaethau. Drwy fynd ati'n rheolaidd i gyhoeddi gwybodaeth sy'n ystyrlon, ein gobaith yw ennyn mwy a mwy o gysylltiad gyda'r bobl a'r cymunedau sy'n dibynnu ar ein gwasanaethau.

Felly, os oes gennych sylwadau am yr Asesiad hwn neu i sôn am ffyrdd posibl inni wella ein Hasesiadau Blynyddol o Berfformiad, byddem yn falch iawn o glywed gennych.

# ADRAN 1

## CYFLWYNIAD

Lluniwyd y ddogfen hon i gydymffurfio ag Adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i roi, mewn un ddogfen, hanes gweithgarwch a pherfformiad yr Awdurdod y llynedd, sef 2016-17.

Mae’n darparu asesiad o’r modd y mae’r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella, ynghyd â’i gynnydd mewn perthynas â’r Amcanion Gwella y gosododd iddo’i hun ar gyfer y llynedd. Mae hefyd yn rhoi crynodeb o’i waith ar y cyd, a’i berfformiad mewn perthynas â dangosyddion penodol, cenedlaethol a lleol, a mesurau llwyddiant.

Mae fersiwn gryno o’r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan:
www.gwastan-gogcymru.org.uk

Mae rhagor o wybodaeth am yr Amcanion Gwella y gosodd yr Awdurdod iddo’i hun ar gyfer y llynedd, ynghyd â’i ddull o osod amcanion, ar gael yn y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2016-17. Mae copi o hwnnw ar gael ar ein gwefan:
http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337498/final-improvement-plan-2016-17-cymraeg.pdf

Mae manylion ynghylch y modd y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn bwriadu sicrhau cydymffurfiad dan y Ddeddf Cydraddoldeb wedi eu nodi yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod 2016-2020 sydd i’w gael yn:
http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/91758/microsoft_word_-_final_strategic_equality_plan_cymraeg-cover.pdf

DRAFT

## Y GWASANAETHAU A DDARPARWN

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn un o dri awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd yn 1996 i ddarparu gwasanaethau tân ac achub yn ardaloedd chwech o awdurdodau unedol, sef Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae'n gofalu am dir sy'n 2,375[1] o filltiroedd sgwâr sy'n cynnwys tir amaethyddol a thir agored, coedwigoedd a choetiroedd, 5,790 o filltiroedd o ffyrdd, a rhwydweithiau rheilffyrdd a dyfrffyrdd. Mae'n cynorthwyo i amddiffyn poblogaeth breswyl sy'n 695,822 o bobl, 324,299 o anheddau a 29,175 o eiddo annomestig.

**Atal tanau**

Dan y ddeddf, rhaid i awdurdodau tân ac achub drefnu i hybu diogelwch tân yn eu hardal. Byddai hyn yn cynnwys rhoi gwybod i bobl am ffyrdd i atal tanau, a'u cynghori ynghylch y ffordd orau i ymateb os bydd tân.

**Gorfodi Diogelwch Tân**

Mae dyletswydd ar awdurdodau tân ac achub i orfodi diogelwch tân mewn eiddo annomestig (gwestai, ysgolion, siopau a swyddfeydd ac ati). Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys arfer pwerau i roi hysbysiadau addasu, hysbysiadau gorfodi a hyd yn oed hysbysiadau gwahardd os byddant yn canfod bod y trefniadau diogelwch tân ar y safle yn anfoddhaol.

**Ymateb mewn Argyfwng**

Rhaid i awdurdodau tân ac achub wneud trefniadau ar gyfer derbyn galwadau 999 ac ar gyfer anfon staff gyda'r hyfforddiant a'r offer i ddiffodd tanau ac amddiffyn bywyd ac eiddo yn y tanau hynny.

Rhaid iddynt hefyd wneud trefniadau ar gyfer achub pobl o wrthdrawiadau ar y ffyrdd ac ar gyfer amddiffyn pobl rhag niwed difrifol.

**Cynllunio ac Ymateb i Argyfyngau Eraill**

Rhaid i awdurdodau tân ac achub wneud trefniadau ar gyfer dadhalogi pobl ar raddfa eang ar ôl digwyddiadau cemegol, biolegol neu ymbelydrol, ac ar gyfer achub pobl o drenau, awyrennau ac adeiladau wedi cwympo. Rhaid iddynt hefyd fod yn barod i gynorthwyo gydag argyfyngau mawr yn rhywle arall yn y Deyrnas Unedig.

Fel ymatebwyr 'Categori 1' dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil, mae dyletswyddau ar awdurdodau tân ac achub hefyd mewn perthynas â digwyddiadau mawr sy'n bygwth difrod difrifol i les pobl, bywyd gwyllt, yr amgylchedd a'r prif gadwyni cyflenwi.

[1] https://ons.maps.arcMgis.com/home/item.html?id=e418f9432e2641aeab55519d57d5be7a Hydref 2016



DRAFFT

## YMRWYMIAD I GYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn uno darnau o ddeddfwriaeth ym maes cydraddoldeb a oedd yn arfer bod ar wahân, gan gysoni a chryfhau deddfwriaeth cydraddoldeb o dan un Ddeddf newydd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd ym maes cydraddoldeb ar gyfer y sector cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y sector, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a fictimeiddio drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hybu dealltwriaeth;
- hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt;
- hybu perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Hefyd, mae dyletswyddau cydraddoldeb statudol penodol cysylltiedig ar gyfer Cymru (sef Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011) sy'n galluogi awdurdod cyhoeddus yng Nghymru i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth o fewn ein gweithlu. Mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei atgyfnerthu gan ein Gwerthoedd Craidd, sydd wedi eu hymgorffori yn ein harferion gwaith o ddydd i ddydd gyda phawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ein cydweithwyr a'n partneriaid.

Cyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn Ebrill 2016. Roedd yn nodi hymrwymiad parhaus yr Awdurdod i sicrhau tegwch i drigolion, aelodaeth etholedig, aelodau staff a phob ymwelydd ag ardal Gogledd Cymru.

Mae adrannau chwech a saith o'r ddogfen hon yn cynnwys y Cynllun Gweithredu – Adrodd ynghylch Amcanion Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Data Cyflogaeth/Digwyddiadau, yn eu trefn.

Mae fersiwn lawn o Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2016-17 yn darparu rhagor o fanylder, ac mae ar gael ar ein gwefan:
http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337754/strategic-equality-plan-annual-report-2016-2017.pdf

DRAFT

**Gorsafoedd Tân:**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithredu:

**Gorsafoedd Tân Shifft 24 awr**

Mae tair gorsaf dân yn aros ar agor yn barhaol. Mae’r rhain yn Wrecsam, Glannau Dyfrdwy (Queensferry) a’r Rhyl.

**Gorsafoedd Tân Criw Dydd**

Mae pum gorsaf dân yn rhai lle mae criw yno rhwng hanner dydd a 10 o’r gloch y nos, ac maent yn gweithredu fel gorsafoedd y system RDS (ar gael yn ôl y galw) y tu allan i’r oriau hynny.

**Gorsafoedd Tân y System RDS (ar gael yn ôl y galw)**

Mae tri deg chwech o orsafoedd tân yn gweithredu fel gorsafoedd RDS.

**Ynys Môn**
1 gorsaf criw dydd
6 gorsaf RDS

**Conwy**
2 orsaf criw dydd
6 gorsaf RDS

**Sir y Fflint**
1 gorsaf shifft 24 awr
4 gorsaf RDS

**Gogledd Gwynedd**
2 orsaf criw dydd
4 gorsaf RDS

**Sir Ddinbych**
1 orsaf shifft 24 awr
6 gorsaf RDS

**Wrecsam**
1 gorsaf shifft 24 awr
2 orsaf RDS

**De Gwynedd**
8 gorsaf RDS

Ymhob un o’r 36 o orsafoedd tân RDS mae yna un injan dân sydd â chriw RDS arni, ac eithrio Pwllheli lle mae dwy (37 i gyd).

Ymhob un o’r 8 gorsaf amser cyflawn mae yna un injan dân sydd â chriw RDS arni, ynghyd ag un injan dân sydd â staff amser cyflawn arni, ac eithrio Wrecsam lle mae dwy (17 i gyd).

DRAFT

**Staff:**


Ar 31 Mawrth 2017, roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyflogi:

| | Nifer sy'n gyfwerth â llawn amser | Nifer pennau staff unigol |
|---|---|---|
| Gweithredol amser cyflawn (WDS) | 243.17 | 256 |
| Gweithredol RDS* | 347.75 | 411 |
| Gwaith cefnogol ac ataliol | 143.31 | 154 |
| Yr Ystafell Reoli | 31.75 | 34 |
| Cyfansymiau | 765.98 | 855 |

*Oherwydd natur 'ar alwad' y swyddi hyn, maent yn cael eu cyfrifo fel unedau o 'ofal 24 awr' yn hytrach na chyfwerth â llawn amser.

O gymharu ag awdurdodau tân ac achub (ATAau) yn Lloegr, mae gan Ogledd Cymru ymysg y nifer isaf o stafd gweithredol amser cyflawn (dim ond 13 ATA sydd â llai) ac ymysg y nifer uchaf o staff gweithredol ar ddyletswydd RDS (dim ond 11 ATA sydd â mwy). Bydd y ffigyrau ar gyfer 2017 yn cael eu diweddaru pan fyddant ar gael yn hydref 2017.

**Niferoedd staff fel cyfwerth â llawn amser Mawrth 2016**




Sylwer: Oherwydd y raddfa, mae ffigyrau Llundain Fwyaf wedi eu heithrio o'r graff. Roedd 4,821 o staff amser cyflawn, 98 o staff yr ystafell reoli, ac 784 o staff cefnogol. 5,703 i gyd.

## PROFFIL O OGLEDD CYMRU

**POBLOGAETH:** Mae poblogaeth breswyl Gogledd Cymru oddeutu 695,822[2] o bobl, a honno wedi ei chrynhoi'n bennaf yn ardaloedd mwy diwydiannol a threfol y gogledd-ddwyrain ac ar hyd yr arfordir.




Ffynhonnell: Infobase Cymru

Mae'r map yn dangos lle mae'r ardaloedd mwy tenau eu poblogaeth a mwy dwys eu poblogaeth yn y Gogledd[3]. Mae'r lliwiau tywyllach yn dangos mwy o ddwysedd poblogaeth.

Ar lefel sirol, mae'r dwysedd poblogaeth yn amrywio rhwng 49 o bobl ymhob cilomedr sgwâr yng Ngwynedd – un o'r siroedd mwyaf tenau eu poblogaeth yng Nghymru a Lloegr – a 353 o bobl ymhob cilomedr sgwâr yn Sir y Fflint[4].


---

[2] Amcangyfrifon canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol: 691,986 yn 2013, 694,038 yn 2014, 694,473 yn 2015. Ffynhonnell: StatsWales. Diweddarwyd ddiwethaf ar 23 Mehefin 2016.

[3] Cymerwyd y ffigyrau ar adeg Amcangyfrifon Ardaloedd Bychain 2014 a gyhoeddwyd yn Hydref 2015.

[4] https://statscymru.llyw.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Density/populationdensity-by-localauthority-year canol blwyddyn 2016.

**DWYSEDD POBLOGAETH:**




Ffynhonnell: StatsWales https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Density/PopulationDensity-by-LocalAuthority-Year (Canol blwyddyn 2016) https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-year (Canol blwyddyn 2016)

**ETHNIGRWYDD**: Yn ôl yr amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf[5] roedd mwyafrif helaeth poblogaeth Gogledd Cymru yn wyn 97.34%, o'i gymharu â 95.24% yng Nghymru gyfan.

**HUNANIAETH GENEDLAETHOL:** Yn ôl Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2016[6], roedd y ganran o boblogaeth siroedd Gogledd Cymru a oedd yn ystyried mai Cymry oeddent yn amrywio rhwng 36% a 65% o'i gymharu â 63% sef cyfartaledd Cymru.

**YR IAITH GYMRAEG**: Roedd Cyfrifiad 2011[7] yn dangos bod canran y siaradwyr Cymraeg yn siroedd Gogledd Cymru yn amrywio rhwng 13% a thros 65%, o'i gymharu ag 19%, sef y cyfartaledd yng Nghymru.

[5] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-year-ethnicgroup Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017


[6] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/National-Identity/NationalIdentity-by-Area-Identity (Blwyddyn 2017)

[7] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/WelshSpeakers-by-LA-BroaderAge-2001And2011Census



DRAFT

**OEDRAN**: Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae gan boblogaeth y Gogledd ganran fymryn yn is o bobl yn eu hugeiniau a'u tridegau, a chanran fymryn yn fwy o bobl yn eu chwedegau, eu saithdegau a'u hwythdegau na Chymru gyfan. Ym mis Mawrth 2011, roedd dros 97,000 o bobl dros 70 mlwydd oed yn byw yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys 159 o bobl wedi cyrraedd can mlwydd oed.




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 (StatsCymru)

**ANABLEDD:** Yn ôl arolwg poblogaeth 2012[8], amcangyfrifir bod rhyw fath o anabledd gan 17% - 24% o boblogaeth Gogledd Cymru, o'i gymharu â mymryn dros 22% yng Nghymru gyfan.


**HUNANIAETH RYWIOL**: Roedd ymatebion i'r Arolwg Integredig o Gartrefi a gynhaliwyd yn 2014[9] yn awgrymu bod rhwng 87% a 97% o boblogaeth Gogledd Cymru yn heterorywiol, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 93%.

[8] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability/PeopleOfWorkingAgeWithDisabilities-by-Area-DisabilityType
[9] https://statcymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Sexual-Identity/SexualIdentity-by-Area-IdentityStatus

**FFYRDD A THRAFFIG FFYRDD:** Y prif gysylltiadau trafnidiaeth ar y ffyrdd yw'r A55, yr A5, yr A483, yr A487, yr A470 a'r A494. Mae tua 5,789 o filltiroedd o ffyrdd yng Ngogledd Cymru, gyda rhyw 84% ohonynt yn is-ffyrdd, a'r gweddill naill ai'n gefnffyrdd neu'n briffyrdd 'A'.[10]

Mae ystadegau'r Adran Drafnidiaeth yn amcangyfrif bod 4.21 miliwn o filltiroedd cerbydau wedi cael eu teithio yn y chwe sir yng Ngogledd Cymru yn ystod 2016. O blith y rheini, cafodd 3.28 miliwn o filltiroedd cerbydau eu teithio mewn ceir.[11]

Yn 2015, adroddwyd bod 1,859 o anafusion ar y ffyrdd yng Ngogledd Cymru a bu farw 27 ohonynt, cafodd 305 eu hanafu'n ddifrifol a chafodd 1,527 fân anafiadau.[12] Bydd ffigyrau 2016 eu diweddaru pan fyddant ar gael ym mis Medi 2017.




DRAFT

[10] Tabl RDL0102. https://www.gov.uk/government/statistics/road-lengths-in-great-britain-2015
[11] Tablau TRA8901 a TRA8902. https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/tra89-traffic-by-local-authority
[12] https://www.gov.uk/government/statistics/reported-road-casualties-in-great-britain-main-results-2015

# ADRAN 2

## MEINCNODI - SUT MAE TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU YN CYMHARU?

Drwy ein cymharu ein hunain gydag eraill gallwn weld lle y mae modd inni wella. Er nad oes gwybodaeth ar gael bob amser i'n helpu i wneud hyn, neu fod yr wybodaeth mor wahanol fel nad oes unrhyw werth i'r gymhariaeth, mae rhai enghreifftiau yn gymorth inni fynd ati i ymchwilio i'r gwahaniaethau.

*NODYN AR GYMARIAETHAU*
*Mae'r cymariaethau rhwng awdurdodau tân ac achub yng Nghymru a Lloegr sydd yn y ddogfen hon yn dod o ffigyrau a gesglir ac a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref, Ystadegau ac Ymchwil ar gyfer Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Ar brydiau, byddwn yn canfod amrywiadau bychain rhwng y ffigyrau cyhoeddedig hyn a'n ffigyrau ni ein hunain, fel arfer wrth sicrhau ansawdd ein data ein hunain yn ddiweddarach. Er mwyn cymharu, mae'r data a gyhoeddwyd yn allanol wedi eu cadw yn y ddogfen yn y ffurf a gyhoeddwyd.*

## NATUR WLEDIG

Ardal wledig yn bennaf yw Gogledd Cymru, lle mae'r dwysedd poblogaeth yn amrywio rhwng 49 o bobl ymhob $km^2$ yng Ngwynedd a 353 o bobl ymhob $km^2$ yn Sir y Fflint. 150 o bobl ymhob $km^2$ yw'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan.

Mae pellter ac amser teithio yn effeithio ar bob agwedd bron, er enghraifft:

- ein cyswllt â'n cymunedau
- y mathau o ddigwyddiadau sy'n cael ein sylw
- ein hamseroedd cyrraedd at ddigwyddiadau brys
- gwaith atal ac arolygu
- gwaith rheolaidd megis cynnal a chadw adeiladau
- gwaith rheolaidd megis cyfarfodydd a chyrsiau hyfforddi
- a oes gweithwyr posibl ar gael mewn ardaloedd llai poblog
- technoleg gwybodaeth a chyfathrebu
- cynnal a chadw'r fflyd
- faint o danwydd a ddefnyddir gan gerbydau.



DRAFT

Gan ein bod yn darparu gofal tân ac achub ymhob rhan o Ogledd Cymru, rhaid inni fod yn gallu ymdrin â'r heriau o wasanaethu'r ardaloedd gwledig anghysbell a'r trefi mawr a'r ardaloedd mwy trefol.

Mae Llywodraeth y DU yn adrodd ynghylch amseroedd cyrraedd i danau yn Lloegr ar ffurf cyfartaleddau. Yn 2015-16[13] yr amser ymateb cyfartalog ar gyfer mynd at danau mewn awdurdodau tân ac achub sy'n wledig yn bennaf yn Lloegr oedd 10.7 munud. [14]

Mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ynghylch amseroedd cyrraedd tanau yng Nghymru fel canrannau o fewn dosbarthau amser diffiniedig[15]. Mae ffigyrau Gogledd Cymru wedi aros yn gymharol llonydd o'r naill flwyddyn i'r llall, gyda'r rhan fwyaf o'r galwadau tân wedi eu cyrraedd mewn llai na 10 munud a'r "effaith natur wledig" yn cael ei adlewyrchu yn y canrannau y cymerwyd mwy o amser i'w cyrraedd. Mewn ardaloedd lle mae criwiau tân y system RDS, mae'r amser cyrraedd yn cynnwys yr amser a gymerir gan aelodau'r criw i gyrraedd yr orsaf dân.


| Prif Danau. | Rhwng 1 a 5 munud | Rhwng 5 a 10 munud | Rhwng 10 a 15 munud | Mwy na 15 munud |
|---|---|---|---|---|
| **2013-14** | | | | |
| Gogledd Cymru | 17% | 47% | 22% | 13% |
| Canol. a Gorll. Cymru | 17% | 48% | 23% | 12% |
| De Cymru | 21% | 59% | 16% | 4% |
| **2014-15** | | | | |
| Gogledd Cymru | 14% | 48% | 24% | 14% |
| Canol. a Gorll. Cymru | 15% | 52% | 20% | 13% |
| De Cymru | 22% | 56% | 17% | 5% |
| **2015-16** | | | | |
| Gogledd Cymru | 15% | 47% | 22% | 16% |
| Canol. a Gorll. Cymru | 14% | 48% | 25% | 13% |
| De Cymru | 18% | 59% | 18% | 5% |
| **2016-17** | | | | |
| Gogledd Cymru | 9% | 45% | 27% | 19% |
| Canol. a Gorll. Cymru | 15% | 51% | 25% | 9% |
| De Cymru | 18% | 58% | 18% | 6% |

[13] Ffigyrau 2016-17 i fod i gael eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2018.
[14] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/584351/fire-incident-response-times-1516-hosb0117.pdf Tabl 1003 Ionawr 2017.
[15] http://gov.wales/statistics-and-research/fire-statistics/?lang=cy Tabl 26.

DRAFT

Yn y map isod a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru[16] gwelir y crynoadau uwch o brif danau sy'n digwydd mewn ardaloedd trefol.


## Prif Danau ar draws Cymru, 2015-16




16 Ystadegau tân Cymru, 2015-16. http://gov.wales/docs/statistics/2016/160727-fire-statistics-2015-16-en.pdf

## COST

Trowch at ein Hasesiad o’n Perfformiad Blynyddol 2014-15 i gymharu costau ar sail y ffigyrau a gyhoeddwyd gan CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth) ym Mawrth 2016.




[Bydd ffigyrau CIPFA 2016-17 yn cael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017]

## GWEITHGAREDDAU

Mae’r cymariaethau gweithgareddau yn yr adran hon yn seiliedig ar ystadegau tân 2016-17 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru, a ffigyrau poblogaeth a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Gweler Adran 9 am ffynonellau gwybodaeth allanol.

Yn ystod 2016-17, fe aeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru at 2,015 o danau, 1209 o argyfyngau nad oeddent yn danau a 2,124 o alwadau diangen.


Yn ogystal â gweithio i atal tanau a digwyddiadau eraill rhag digwydd, mae’r Gwasanaeth hefyd yn gweithio’n galed i adnabod galwadau 999 sydd naill ai’n rhai lle nad oes angen ymateb o gwbl neu’n rhai y byddai’n well eu trosglwyddo i asiantaethau mwy priodol. Mae hyn yn golygu bod y gwasanaeth yn gallu parhau i fod ar gael i ymdrin â digwyddiadau go iawn lle gellir gwneud defnydd da o’i sgiliau a’i arbenigedd. Yn ogystal â lleihau’r risg cyffredinol yn yr ardal, mae hefyd yn gymorth i gadw’r costau i lawr.

DRAFT

**Tanau:**

<u>Yr holl danau</u> Rhwng 2015-16 a 2016-17, bu 5.8% o ostyngiad yn nifer y tanau yng Ngogledd Cymru o gymharu â gostyngiad o 0.3% yn Lloegr a chynnydd o 11.5% yng Nghymru gyfan.


**Tanau am bob 10,000 o boblogaeth 2016-17**




| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y tanau yr aethpwyd atynt. | 2,349 | 2,416 | 2,244 | 2,140 | 2,015 |


Prif danau     Rhwng 2015-16 a 2016-17, fe wnaeth nifer y prif danau yng Ngogledd Cymru gynyddu 3.4% o gymharu â Lloegr lle cafwyd cynnydd o 1.8% a Chymru lle cafwyd cynnydd o 1.5% yn gyffredinol.

**Prif danau am bob 10,000 o boblogaeth 2016-17**





| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y prif danau yr aethpwyd atynt. | 1,143 | 1,117 | 1,063 | 1,049 | 1,085 |

<u>Tanau eilaidd</u> Fe wnaeth nifer y tanau eilaidd ostwng 15.0% yng Ngogledd Cymru rhwng 2015-16 a 2016-17 o gymharu â gostyngiad o 2.2% yn Lloegr a gostyngiad o 20.5% yng Nghymru yn gyffredinol.





| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y tanau eilaidd yr aethpwyd atynt. | 887 | 1,087 | 964 | 918 | 779 |

Tanau bwriadol Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cydweithio â Heddlu Gogledd Cymru i ostwng nifer yr achosion o losgi bwriadol. Yn 2016/17, cafwyd 15.5% o ostyngiad yn nifer y tanau bwriadol yng Ngogledd Cymru o gymharu ag yn 2015/16. Hefyd, cafwyd 1.1% o ostyngiad yn nifer y tanau damweiniol.





Prif danau bwriadol Rhwng 2015-16 a 2016-17, bu 3.1% o gynnydd yn nifer y prif danau bwriadol yng Ngogledd Cymru o gymharu â 3.3% o gynnydd yn Lloegr a 3.7% o gynnydd yng Nghymru gyfan. Fe wnaeth y cynnydd yn nifer y prif danau bwriadol ledled y Deyrnas Unedig rhwng 2014-15 a 2015-16 arwain at fonitro agosach yng Ngogledd Cymru yn ystod 2015-16 a 2016-17. Felly, mae'n galonogol nodi bod nifer y prif danau bwriadol wedi gostwng.

**Prif danau bwriadol am bob 10,000 o boblogaeth 2016-17**




| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y prif danau bwriadol yr aethpwyd atynt. | 286 | 243 | 222 | 254 | 246 |

Tanau eilaidd bwriadol   Fe wnaeth nifer y tanau eilaidd bwriadol yng Ngogledd Cymru leihau o 22.7% rhwng 2015-16 a 2016-17. Mae hyn yn cymharu'n dda â Lloegr ble gwelwyd gostyngiad o 0.4% a hefyd gyda Chymru gyfan lle bu gostyngiad o 21.4%





| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y tanau eilaidd bwriadol yr aethpwyd atynt. | 549 | 549 | 502 | 450 | 348 |

## Galwadau diangen:

Yr holl alwadau diangen  Rhwng 2015-16 a 2016-17, fe wnaeth nifer y galwadau diangen yr aethpwyd atynt yng Ngogledd Cymru gynyddu 7.5%. Bu 4.4% o gynnydd yn Lloegr hefyd, a 2.0% o gynnydd yng Nghymru yn gyffredinol.


**Galwadau diangen am bob 10,000 o boblogaeth 2016-17**




| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y galwadau diangen yr aethpwyd atynt. | 3,249 | 3,102 | 3,218 | 1,995 | 2,124 |

Ers nifer o flynyddoedd mae Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithio i ostwng nifer y galwadau diangen maleisus a wneir drwy’r system argyfyngau 999 a hefyd i adnabod cymaint o alwadau ffug ag y bo modd cyn cysegru adnoddau gwerthfawr i fynd atynt.

**Galwadau ffug maleisus am bob 10,000 o boblogaeth 2016-17**





| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y galwadau diangen maleisus a gafwyd. | 473 | 382 | 194 | 158 | 162 |
| Nifer y galwadau diangen maleisus yr aethpwyd atynt. | 106 | 77 | 77 | 49 | 48 |
| Canran y galwadau diangen maleisus a gafwyd ond nad aethpwyd atynt (i’r rhif cyfan agosaf). | 78% | 80% | 60% | 69% | 70% |

Rhwng 2015-16 a 2016-17, arhosodd y gyfradd isel o fynd at alwadau ffug maleisus am bedwaredd flwyddyn yng Ngogledd Cymru, gyda 2.0% o ostyngiad, o gymharu â 0.1% o gynnydd yn Lloegr a 21.0% o ostyngiad yng Nghymru gyfan.

DRAFT

Rhwng 2015-16 a 2016-17, bu cynnydd o 19% yn nifer y galwadau diangen a gynhyrchwyd gan larymau tân awtomatig yr aethpwyd atynt yng Ngogledd Cymru o gymharu â 6.4% o gynnydd yn Lloegr a 6.9% o gynnydd ledled Cymru. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n agos yn 2017/18 er mwyn canfod y rheswm dros y cynnydd yn nifer y galwadau gan larymau tân awtomatig.

**Galwadau diangen o systemau larwm awtomatig am bob 10,000 o boblogaeth 2016-17**





| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig yr aethpwyd atynt. | 1,960 | 1,855 | 1,972 | 966 | 1,151 |

**Argyfyngau nad ydynt yn danau (gwasanaethau arbennig):**

Er bod 2016-17 wedi gweld cynnydd yn nifer y digwyddiadau gwasanaethau arbennig yr aethpwyd atynt yng Ngogledd Cymru o gymharu ag yn 2015-16, roedd hyn o ganlyniad i ddechrau ar nifer o brosiectau cydweithredol gyda phartneriaid, gan gynnwys cyd-ymateb, cyflwyno tîm cymorth cymunedol a gweithredu'r prosiect ar goll o gartref.

**Gwasanaethau arbennig am bob 10,000 o boblogaeth 2016-17**




| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y digwyddiadau gwasanaethau arbennig yr aethpwyd atynt. | 1,204 | 837 | 651 | 764 | 1,209* |
| Digwyddiadau gwasanaethau arbennig a oedd yn wrthdrawiadau ar y ffyrdd. | 399 | 312 | 267 | 212 | 215 |


*Yn cynnwys 16 galwad ffug am ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig.

DRAFT

## Atal tanau:

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnal nifer gymharol uchel o Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref fel rhan o'i strategaeth diogelwch cymunedol. Nodwch – mae'r siart isod yn defnyddio ffigyrau wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth DU ar gyfer awdurdodau tân ac achub Lloegr.


**Archwiliadau Diogelwch Tan yn y Cartref am bob 10,000 o gartrefi 2016-17**




| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr archwiliadau diogelwch yn y cartref a gynhaliwyd. | 22,201 | 26,703 | 27,352 | 22,773 | 20,235 |

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru hefyd yn cynnal cannoedd o archwiliadau/arolygiadau diogelwch tân o safleoedd annomestig bob blwyddyn er mwyn gwirio'r trefniadau diogelwch tân.

**Archwiliadau Diogelwch Tan am bob 10,000 o safleoedd perthnasol (sy'n hysbys i'r ATA) 2016-17**




| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr archwiliadau/arolygiadau diogelwch tân a gynhaliwyd. | 867 | 1,017 | 880 | 1,018 | 938 |

# ADRAN 3

## Y CYNNYDD MEWN PERTHYNAS AG AMCANION GWELLA PENODOL YN 2016-17

Mae’r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wedi eu categoreiddio’n ‘Awdurdodau Gwella Cymreig’. Maent yn atebol i ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009 o ran dilyn proses flynyddol o osod a chyflawni Amcanion Gwella lleol.

Wedi sganio’r gorwel ac asesu risg yng Ngogledd Cymru, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi canfod rhai materion strategol y mae’n ystyried mai priodol fyddai mynd i’r afael â hwy drwy’r broses hon o gynllunio gwelliannau.

Mae’r adran hon yn cyflwyno amcanion yr Awdurdod ar gyfer 2016-17, esboniad cryno o’r rheswm pam y mabwysiadwyd pob un, beth yr oeddem yn bwriadu ei wneud, beth yr oeddem yn disgwyl ei gyflawni, a ph’un ai y llwyddasom ai peidio.

Rhoddir gwybod am bob amcan yn nhermau:

- mesur ein perfformiad;
- cymharu ein perfformiad; ac
- asesu ein perfformiad.

## CYNLLUNIAU’R GWASANAETH

Er mwyn sicrhau bod yr amcanion wedi cael eu cyflawni yn ôl y bwriad yn 2016-17, cafodd rhai agweddau eu dyrannu (gyda chyllidebau lle’r oedd hynny’n briodol) i gynlluniau gwasanaeth yr adrannau. Caiff y cynlluniau hyn eu monitro’n ganolog bob chwarter er mwyn sicrhau bod y camau a’r gwariant a fwriedir ar gyfer y flwyddyn yn dilyn y trywydd cywir.

DRAFT

**Amcan Gwella 1**

**Cynorthwyo i gadw pobl a cymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.**

**Pam dewis yr amcan hwn?**

Oherwydd bod cadw pobl yn ddiogel yn ganolog i'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud. Diogelwch pobl yng Ngogledd Cymru yw ei prif fusnes, ond hefyd mae'n gwneud mwy o synnwyr i atal digwyddiadau yn hytrach na dim ond ymateb iddynt.

**Beth oedd y canlyniad disgwyliedig?**

Mae pobl yn disgwyl bod yn ddiogel gartref. Gyda'r cymorth a'r cyngor cywir, gall pobl eu hamddiffyn eu hunain rhag tanau damweiniol, a hynny drwy atal tân rhag cychwyn yn y lle cyntaf a thrwy wybod sut i ymateb yn gyflym ac yn gywir os bydd un yn cychwyn.

Pan fo hynny wedi methu, dylai pobl fod yn hyderus y bydd y gwasanaeth tân ac achub yn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i'w hachub ac i gyfyngu ar y difrod i'w heiddo.

**A GYFLAWNWYD AMCAN 1: 2016-17?**

**Mesur ein perfformiad:**


<u>Allbynnau:</u>

| Gogledd Cymru | 2016-17 | Targed | Cyflawnwyd? |
|---|---|---|---|
| Archwiliadau diogelwch yn y cartref a gynhaliwyd | 20,235 | 20,000 | ✓ |
| Canran yr archwiliadau diogelwch yn y cartref a gynhaliwyd o ganlyniad i atgyfeiriadau | 27% | 30% | X |

Mae'n siomedig fod nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref sy'n deillio o atgyfeiriadau gan sefydliadau partneriaethol wedi gostwng fymryn yn is na'r targed o 30%. Mae'r Gwasanaeth wedi cydnabod hyn ac wedi canolbwyntio ymdrechion o'r newydd i sicrhau bod sefydliadau partneriaethol yn ymwybodol ei bod yn bwysig atgyfeirio'r rhai sydd fwyaf bregus i gael archwiliad diogelwch yn y cartref.


Canlyniadau:

1. Nifer y marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau.





Yn ystod y flwyddyn, mae nifer y marwolaethau sy'n digwydd oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi wedi cynyddu i bedwar, sef un yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Am i lawr y mae'r tueddiad tymor hir, ac mae hynny'n gadarnhaol.

2. Nifer yr anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau




Mae nifer yr anafiadau a gofnodwyd yn dangos gostyngiad graddol, er bod y rhain yn tueddu i amrywio fesul blwyddyn. Cynhaliwyd adolygiad yn ystod y flwyddyn i edrych yn fanylach ar anafiadau mewn tanau mewn cartrefi ac mae'r canlyniadau i'w cael ar dudalen 36 o'r ddogfen hon.

3. Canran y bobl mewn tanau damweiniol mewn anheddau a lwyddodd i ddianc yn ddianaf a heb gymorth criw tân.





Mae canran y bobl yn dianc o dân mewn cartref yn ddianaf wedi cynyddu fymryn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r ffigwr hwn wedi aros rhwng 74% ac 86% ers 2010-11.

**Cymharu ein perfformiad wrth ostwng nifer y tanau damweiniol mewn anheddau:**

Yn ystod 2016-17, fe wnaeth nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yn Lloegr gynyddu fymryn 3.9% (1,116 o danau) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac fe wnaeth y nifer yng Nghymru ostwng 6.7% (108 o danau).

Yng Ngogledd Cymru, 433 oedd nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt yn ystod 2016-17, sef cynydd o 12.5% (48 o danau), o gymharu ag yn 2015-16. Er bod y cynnydd hwn yn siomedig, mae'r tueddiad hirdymor am i lawr yn un cadarnhaol.




O'r 48 o Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru a Lloegr, gwelodd 73% ohonynt ostyngiad yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt am bob 10,000 o gartrefi.

Roedd Gogledd Cymru ymysg y 27% a gofnododd gynnydd yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi, gydag 1.49 o gynnydd yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yr aethant atynt am bob 10,000 o gartrefi.

Roedd y cynnydd yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi am bob 10,000 yn amrywio rhwng 0.05 ac 1.82.

Fe wnaeth y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru gofnodi cynnydd yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi[17] rhwng 2015-16 a 2016-17.

| **TANAU DAMWEINIOL MEWN ANHEDDAU** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn Ariannol | Gogledd Cymru | Canol. a Gorll. Cymru | De Cymru | **Cymru** |
| 2001-02 | 614 | 821 | 1,055 | **2,490** |
| 2002-03 | 554 | 745 | 1,077 | **2,377** |
| 2003-04 | 501 | 838 | 940 | **2,279** |
| 2004-05 | 531 | 727 | 891 | **2,150** |
| 2005-06 | 502 | 749 | 921 | **2,172** |
| 2006-07 | 459 | 663 | 867 | **1,990** |
| 2007-08 | 526 | 642 | 867 | **2,035** |
| 2008-09 | 482 | 638 | 799 | **1,919** |
| 2009-10 | 478 | 584 | 802 | **1,864** |
| 2010-11 | 469 | 605 | 752 | **1,826** |
| 2011-12 | 476 | 555 | 758 | **1,789** |
| 2012-13 | 455 | 525 | 745 | **1,725** |
| 2013-14 | 479 | 572 | 681 | **1,732** |
| 2014-15 | 401 | 579 | 655 | **1,635** |
| 2015-16 | 385 | 542 | 683 | **1,611** |
| 2016-17(p) | 433 | 594 | 691 | **1,718** |

O safoni hyn ar draws y tri gwasanaeth, mae'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru wedi gweld gostyngiad cyson yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi am bob 10,000 o gartrefi ers 2001-02, er bod y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru wedi cofnodi cynnydd yn 2016-17.

| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn anheddau am bob 10,000 o anheddau. | 14.26 | 14.98 | 12.44 | 12.40 | 13.85 |

[17] Ystadegau Tân 2015-16 a gyhoeddwyd ar 27/07/2016 gan Lywodraeth Cymru. Tabl 6. http://gov.wales/statistics-and-research/fire-statistics/?lang=cy

Mae nifer y tanau simnai hefyd wedi bod yn gostwng yng Nghymru, gyda gostyngiad o 12.7% (22 o danau) yng Ngogledd Cymru yn 2016-17 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae pa mor aml mae tanau simnai yn digwydd yn tueddu i ddilyn patrymau tywydd, gan gynyddu yn ystod cyfnodau o dywydd oer.

| TANAU SIMNAI | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn Ariannol | Gogledd Cymru | Canol. a Gorll. Cymru | De Cymru | **Cymru** |
| 2001-02 | 439 | 276 | 181 | **896** |
| 2002-03 | 357 | 291 | 123 | **771** |
| 2003-04 | 291 | 288 | 124 | **703** |
| 2004-05 | 288 | 246 | 120 | **654** |
| 2005-06 | 280 | 278 | 111 | **669** |
| 2006-07 | 268 | 241 | 86 | **595** |
| 2007-08 | 279 | 254 | 87 | **620** |
| 2008-09 | 380 | 326 | 106 | **812** |
| 2009-10 | 351 | 330 | 109 | **790** |
| 2010-11 | 325 | 337 | 109 | **771** |
| 2011-12 | 254 | 260 | 101 | **615** |
| 2012-13 | 319 | 340 | 112 | **771** |
| 2013-14 | 212 | 265 | 101 | **578** |
| 2014-15 | 217 | 220 | 112 | **549** |
| 2015-16 | 173 | 186 | 73 | **432** |
| 2016-17 | 151 | 195 | 69 | **415** |

| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Tanau simnai am bob 10,000 o gartrefi. | 10.02 | 6.63 | 6.73 | 5.56 | 4.83 |

DRAFT

**Cymharu ein perfformiad wrth ostwng nifer y bobl sy’n cael eu lladd neu eu hanafu mewn tanau damweiniol mewn anheddau:**

Yn 2015-16, cofnododd Gogledd Cymru y gyfradd uchaf o anafiadau tân yng Nghymru a Lloegr. Yn ystod y flwyddyn felly, fe wnaethom ni ddechrau ar adolygiad o’r modd roeddem yn cofnodi anafiadau yng Ngogledd Cymru gan edrych i weld a oedd ein dulliau cofnodi’n wahanol i rai gwasanaethau tân ac achub eraill. Fe wnaethom ni geisio canfod unrhyw arferion cofnodi a allai esbonio pam fod cyfradd uwch o anafiadau’n cael eu cofnodi yng Ngogledd Cymru a pharhaodd y darn o waith i 2016-17.

Peth cymharol brin hefyd yw anafiadau difrifol oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau. Er cysondeb, mae anafusion tân wedi cael eu cofnodi ers Medi 2009 dan bedwar categori difrifoldeb :


i) *aeth y dioddefwr i’r ysbyty, mae’r anafiadau’n ymddangos yn ddifrifol;*
ii) *aeth y dioddefwr i’r ysbyty, mae’r anafiadau’n ymddangos yn fach;*
iii) *rhoddwyd cymorth cyntaf i’r dioddefwr yn y fan a’r lle yn unig, ond nid oedd angen rhagor o driniaeth;*
iv) *argymhellwyd archwiliad rhagofalus – aeth y person i’r ysbyty neu cafodd gyngor i weld meddyg rhag ofn, ond nid oedd unrhyw anaf neu drallod amlwg.*

Yn 2016-17, aethpwyd ag wyth o bobl i’r ysbyty ar ôl mewn tân damweiniol mewn cartrefi yn dioddef o’r hyn a gofnodwyd fel anafiadau difrifol yn gysylltiedig â thân. Aethpwyd â dau ddeg pump o bob erall i’r ysbyty gyda’r hyn a gofnodwyd fel mân anafiadau. Mae hyn yn 46% o ostyngiad yn nifer y mân anafiadau yn 2016-17.

| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau a anfonwyd i’r ysbyty gydag anafiadau difrifol neu fychain. | 45 | 58 | 35 | 47 | 25 |

Yng Ngogledd Cymru, fe wnaeth nifer yr anafusion am bob 100,000 o boblogaeth y cofnodwyd eu bod wedi cael anaf difrifol neu fân anaf ostwng o 7 yn 2015-16 i 4.7 yn 2016-17.


**Anafiadau o danau damweiniol mewn cartrefi , ac eithrio'r rhai gafodd gymorth cyntaf yn unig neu eu hargymell i gael arolwg rhagofalus, am bob 100,000 o boblogaeth 2016-17**




Pan fo anafusion sydd wedi cael archwiliad rhagofalus neu gymorth tân ar safle'r tân yn cael eu cynnwys, mae ffigwr Gogledd Cymru yn codi i 17.8 o anafusion am bob 100,000 o boblogaeth.

Er bod Gogledd Cymru yn parhau i gofnodi'r nifer uchaf o anafusion pan fo'r pedwar categori'n cael eu cynnwys, mae'r ffigwr hwn 4.2 yn is o anafusion am bob 100,000 o boblogaeth o gymharu â 2015-16 (22 o anafusion am bob 100,000 o boblogaeth).

**Anafiadau o danau damweiniol mewn cartrefi am bob 100,000 o boblogaeth 2016-17**





Mae'n werth nodi bod archwiliadau rhagofalus hefyd yn cynnwys anafusion pryd cafwyd anaf hysbys neu anhysbys, mewn geiriadau eraill, gall anafusyn gael archwiliad rhagofalus hyd yn oed os nad oes unrhyw arwyddion amlwg o anaf.

Da nodi, er bod cynnydd bach yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yn 2016-17 o gymharu â 2015-16, fod nifer y bobl a anafwyd (difrifol neu fân) o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi wedi gostwng yn 2016-17. Gallai deall y rhesymau pam fod mwy o anafusion yn cael eu cofnodi gydag archwiliadau rhagofalus a chymorth cyntaf yng Ngogledd Cymru, o gymharu â gwasanaethau tân ac achub eraill, fod yn allweddol i sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol.

Er bod marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi yn brin, maen nhw er hynny'n ddigwyddiadau trasig ac er mai 0.57 am bob 100,000 o boblogaeth yn 2016-17 yw'r gyfradd yng Ngogledd Cymru, o gymharu â'r gyfradd uchaf yng Nghymru a Lloegr sef 0.95 am bob 100,000 o boblogaeth, bydd y gwaith yn parhau i atal rhagor o farwolaethau tân.

**Marwolaethau o danau damweiniol mewn cartrefi am bob 100,000 o boblogaeth 2016-17**




Fe wnaeth nifer y marwolaethau oherwydd tanau damweinol mewn cartrefi gynyddu un farwolaeth, sef i bedwar yn ystod 2016-17. Er bod hyn yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, mae'n dal yn siomedig gweld y cynnydd bach hwn.

| Gogledd Cymru | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau. | 6 | 3 | 3 | 2 | 3 | 4 |

Mae ffactorau perthnasol eraill wrth gadw pobl yn ddiogel yn parhau i ddangos canlyniadau da:

1. **Diangfeydd Diogel**

Mae canran y bobl mewn tanau damweiniol mewn cartrefi a lwyddodd i ddianc yn ddianaf heb fod angen cymorth gan griw tân yn gyson uchel:

| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y bobl mewn tanau damweiniol mewn cartrefi a lwyddodd i ddiangen yn ddianaf heb fod angen cymorth gan griw tân i wneud hynny. | 77% | 79% | 86% | 74.3% | 85.8% |

2. **Lledaeniad tân**

Nid yw’r rhan fwyaf o danau damweiniol mewn anheddau yn lledaenu ymhellach na’r ystafell lle bu iddynt gychwyn:

| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y tanau damweiniol mewn anheddau a gyfyngwyd i’r ystafell lle bu iddynt gychwyn. | 91% | 92% | 89% | 92% | 91% |

Ledled Cymru, mae’r ffigur yn dal yn uchel, gyda De Cymru’n cofnodi 84.91% a Chanolbarth a Gorllewin Cymru’n cofnodi 86.03% o danau mewn cartrefi a gyfngwyd i’r ystafell lle bu iddynt gychwyn.

3. **Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref**

Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, rydym ni a’n hasiantaethau partneriaethol wedi cynnal 118,774 o Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref, gan osod larymau mwg â batris 10 mlynedd yn y rhan fwyaf o’r cartrefi hynny, a darparu cyngor diogelwch tân amhrisiadwy i breswylwyr yr eiddo hynny.

| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref a gynhaliwyd | 22,244 | 26,621 | 27,352 | 22,322 | 20,235 |



DRAFFT

## 4. Perchnogaeth ar larymau mwg

Mae canran y tanau mewn cartrefi lle roedd larwm mwg gweithredol ar gael i roi rhybudd cynnar i'r preswylwyr fod tân yn datblygu yn ganran uchel iawn. Mae'r ffigyrau diweddaraf a gyhoeddwyd[18] ynglŷn â phresenoldeb a statws gweithredol larymau mwg mewn tanau mewn cartrefi yn Lloegr yn dangos nad oedd larwm mwg yn bresennol mewn 28% o'r tanau mewn cartrefi, o gymharu â 29.5% yn 2014/15. Yng Ngogledd Cymru, mae hyn yn is o lawer:

| Canran y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt a lle'r oedd larwm mwg: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
| • wedi ei osod ac wedi canu | 59.43% | 58.77% | 65.30% | 60.28% | 59.74% |
| • wedi ei osod ond heb ganu (fel arfer oherwydd na chyrhaeddodd y tân mor bell â'r larwm) | 25.96% | 25.05% | 22.83% | 25.23% | 25.05% |
| • heb ei osod. | 14.60% | 16.18% | 11.87% | 14.49% | 15.20% |

### Asesu ein perfformiad

Ein hamcan ar ddechrau 2016-17 oedd cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau yn ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.

### Asesu ein perfformiad wrth ostwng nifer y tanau damweiniol mewn anheddau

Mae'r cynnydd o 12.5% yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru yn 2016-17, ochr yn ochr â'r 6.7% o gynnydd ledled Cymru yn destun pryder, ac er bod y ffigwr ar gyfer Gogledd Cymru yn dal yn is na'r cyfartaledd pum mlynedd o 439, bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro dros y deuddeng mis nesaf.

Gwyddom o'n dadansoddiad ein hunain fod y rhan fwyaf o danau damweiniol mewn cartrefi yn cychwyn yn y gegin neu'r ystafell fyw. Gwyddom hefyd fod y rhan fwyaf o anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi yn digwydd naill ai yn y gegin neu'r ystafell fyw. Dylai ein hymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth am danau wrth goginio a'n negeseuon penodol am ddiogelwch tân yn y cartref fod yn gymorth i leihau'r rhain yn y dyfodol.

[18] Fire Statistics: England April 2015 to March 2016. Published in April 2017. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/611182/fire-statistics-england-1516-hosb0517.pdf




DRAFT

Yn ystod 2017-18, byddwn yn parhau i edrych yn fanylach ar danau sy'n gysylltiedig â choginio. Rydym yn gobeithio y gallwn, drwy siarad â'r bobl dan sylw, ddeall yn well sut mae tanau'n dechrau yn y cartref gan wella ein negeseuon ataliol.

## Asesu ein perfformiad wrth ostwng nifer yr anafusion of tanau damweiniol mewn anheddau

Rydym yn falch fod nifer y marwolaethau oherwydd tân a'r anafiadau difrifol oherwydd tân wedi aros yn isel yn 2016-17. Yn ystod 2016-17, fe wnaethom ni adrodd bod cyfanswm o bedwar marwolaeth oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau.

**Tanau Damweiniol mewn Anheddau ac Anafusion yn ôl Difrifoldeb yr Anaf**




Hefyd, gwelsom 40.48% o gynnydd yn nifer y bobl y cofnodwyd eu bod wedi'u hanfon i'r ysbyty gyda mân anafiadau oherwydd tân, o gymharu ag yn 2015-16. Fe wnaeth nifer y rhai a gafodd gymorth cyntaf ar safle'r tân a nifer y bobl a gafodd, neu a gynghorwyd i gael, archwiliad rhag ofn ostwng hefyd o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol.

Nid yw cyfanswm nifer yr anafusion a anfonwyd i'r ysbyty yn uchel allan o boblogaeth o 695,822, ond mae effaith tân mewn cartref ar deulu a chymuned yn gallu bod yn fawr, ac mae gostwng nifer y bobl sy'n cael eu hanafu ynddynt yn parhau'n flaenoriaeth uchel i'r Awdurdod.

Mae'r dangosyddion sy'n ymwneud â phobl lle cafodd y tanau eu cyfyngu i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn, a pherchnogaeth ar larymau mwg, yn gyson dda ac yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.

DRAFT

**Pa gamau newydd a gynlluniwyd ar gyfer 2016-17 a sut gwnaethom ni?**

| **1.** | Ceisio gwella effaith ac effeithiolrwydd Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref. |
|---|---|

**I ba raddau y cyflawnwyd y cynllun gweithredu newydd yma?**

| **Ddim o gwbl** | | | | **Yn llwyr** |
|---|---|---|---|---|

**Sut cafodd hyn ei gyflawni?**

Yng Ngogledd Cymru, cafodd 89.1% o'r holl Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref eu cynnal i bobl ag un neu ragor o'r ffactorau risg isod.

- Oedran – pan roedd o leiaf 1 o'r preswylwyr yn 65+ mlwydd oed ar y diwrnod pryd cynhaliwyd yr archwiliad
- Nam ar y synhwyrau neu nam symudedd
- Problem iechyd meddwl neu anhawster dysgu
- Defnyddio/dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau
- Ysmygu
- Un oedolyn yn bresennol yn y cartref (gan gynnwys rhiant sengl)
- Trais domestig
- Unrhyw risg arall a ganfyddir yn lleol (e.e. llety ar rent)

Mae hyn yn welliant o gymharu â 2015-16 (88.1%) ac mae'n dangos bod y penderfyniad i flaenoriaethau angen ar adeg y pwynt cyswllt â ni, yn sicrhau bod archwiliadau diogelwch yn y cartref yn cael eu targedu a bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at y rhai sydd mewn mwyaf o angen.

Hefyd, mae hyd a lled yr archwiliad diogelwch yn y cartref wedi ehangu i gynnwys asesiadau megis y risg bod rhywun yn cael codwm gartref, ochr yn ochr â mecanwaith atgyfeirio i asiantaethau eraill i gael rhagor o gymorth os gwelir y risg hwn.

DRAFT

| | |
|---|---|
| **2.** | Ceisio cynnal 20,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref yn ystod y flwyddyn, gan roi blaenoriaeth i'r bobl fwyaf bregus, a chynnal o leiaf 30% o'r archwiliadau yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad sy'n bartner inni. |

**I ba raddau y cyflawnwyd y cynllun gweithredu newydd yma?**

| **Ddim o gwbl** | | | | **Yn llwyr** |
|---|---|---|---|---|

**Sut cafodd hyn ei gyflawni?**

Yn ystod y flwyddyn, cafodd cyfanswm o 20,235 o Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref eu cynnal ledled ardal Gogledd Cymru, a oedd yn fwy na'r targed sef 20,000.

O'r 20,235 o Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref a gynhaliwyd, cafodd 5,465 eu cynnal i bobl a atgyfeiriwyd yn arbennig atom gan asiantaethau partneriaethol, sef mymryn llai na'r targed o 30%.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ymdrechu i wella nifer yr atgyfeiriadau gan asiantaethau partneriaethol, a hynny drwy adnewyddu cytundebau partneriaeth ag asiantaethau atgyfeirio allweddol, a dylai hyn sichrau'r gwelliannau hyn yn y dyfodol.

Mae gweithio gydag asiantaethau eraill yn rhoi cyfle i'r Gwasanaeth siarad â phobl na fyddai mewn cysylltiad â nhw fel arall. Yna, gellir rhoi cyngor pwrpasol am ddiogelwch tân i'r unigolyn, wedi'i deilwra i'w hamgylchiadau penodol nhw. A gellir gosod offer diogelwch tân perthnasol a fydd yn gymorth os bydd tân.

DRAFT

**Amcan Gwella 2**

**Gan gydnabod y gostyngiad disgwyliedig yng nghyllid llywodraeth leol, bydd yr Awdurdod yn datblygu strategaeth ariannol 3 blynedd lle bydd rhewi'r gyllideb yn egwyddor ganolog.**

**Pam dewis yr amcan hwn?**

Mae'r Awdurdod yn cael ei ariannu'n bennaf drwy gyfraniadau gan y chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru yn unol â'u poblogaeth. Gosodwyd ei gyllideb refeniw ar gyfer 2016/17 ar £31,885,843.

Yn ôl yn 2014, ar ôl rhewi'r gyllideb am dair blynedd yn olynol, fe wnaeth yr Awdurdod gynyddu'r cyfraniadau gan y cynghorau sir yn 2015/16 o £113,832 ond addawodd y byddai'n ceisio cyfyngu ar unrhyw gynnydd yn y dyfodol i swm heb fod yn fwy na £1 y pen o'r boblogaeth.

Y flwyddyn wedyn, ar ôl cydnabod y pwysau ariannol sydd ar gynghorau sir yn yr ardal, penderfynodd yr Awdurdod wneud hyd yn oed yn well na hynny drwy rewi'r gyllideb ar lefel 2015/16 am dair blynedd arall (2016/17, 2017/18 a 2018/19). Gallai hyn o bosibl fod wedi lleihau cyfraniadau'r cynghorau sir ar gyfer gwasanaethau tân ac achub i swm mor isel â'r hyn sy'n cyfateb i £45 y pen o'r boblogaeth y flwyddyn – sef yr un faint ag yr oedd yn 2008/09.

Ond gan ddisgwyl pwysau difrifol ar gyllid holl wasanaethau cyhoeddus, gwyddai'r Awdurdodau y byddai angen iddo barhau i gynllunio a monitro ei sefyllfa ariannol er mwyn cynnal ei gadernid ariannol yn effeithiol.

**Beth oedd y canlyniad disgwyliedig?**

Bod yr Awdurdod yn gwneud y mwyaf o'i gadernid ariannol tan ddiwedd y degawd drwy ddatblygu strategaeth ariannol 3 blynedd ar gyfer 2017/18, 2018/19 a 2019/20.

**Pa gamau newydd sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2016-17?**

Ar ôl torri £3 miliwn o gostau rhedeg blynyddol yr Awdurdod eisoes, byddai angen i'r cynnydd anochel yn y costau dros y tair blynedd nesaf (amcangyfrifwyd ar y pryd y byddent tua £2 filiwn) ddod drwy wneud hyd yn oed yn fwy o arbedion (felly drwy dorri gwasanaethau o bosibl) a defnyddio cronfeydd wrth gefn. Byddai angen cwblhau rhagor o waith manwl yn ystod 2016/17 er mwyn cynllunio ar gyfer hyn.

DRAFT

**Beth yn benodol yr adroddir yn ei gylch i'r cyhoedd ar ddiwedd y flwyddyn?**

Y cynnydd wrth ddatblygu strategaethol ariannol 3 blynedd lle byddai rhewi'r gyllideb yn egwyddor ganolog.

## A GYFLAWNWYD AMCAN 2: 2016-17?

Do, datblygodd yr Awdurdod strategaeth ariannol 3 blynedd. Ond daeth yn amlwg yn ystod y flwyddyn na fyddai'r rhaglen o arbedion y byddai ei hangen ar gyfer menter o'r fath o'i chyfuno â phwysau costau annisgwyl (yn gysylltiedig â chyflogau a chwyddiant prisiau, gan gynnwys oherwydd newidiadau ym mholisi'r llywodraeth ym maes pensiynau) yn gynaliadwy. Wrth ystyried y pwysau ariannol a'r amrywiaeth o opsiynau wedi'u costio i gwrdd â'r pwysau hynny, bu'r Awdurdod yn ystyried yr effaith y gallai lleihau cyllidebau ei chael ar wasanaethau craidd, diogelwch y cyhoedd, lefelau staffio a chynnal cysylltiadau diwydiannol da.

Felly, fe wnaeth yr Awdurdod gynnig strategaeth ariannol 3 blynedd newydd ar gyfer 2017/18, 2018/19 a 2019/20, a fyddai'n cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a lleihau gwasanaeth fel o'r blaen, ond gyda chynnydd yn y cyfraniadau ariannol gan y cynghorau sir. Roedd yr Awdurdod yn cydnabod hefyd y byddai gostyngiadau yn y gwasanaethau'n siŵr o gymryd amser i'w gweithredu.

Cafodd adroddiadau manwl eu cyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfodydd ar 9 Mai 2016,
http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337080/6-diweddariad-gweithgor.pdf
ac 20 Mehefin 2016.
http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337104/7-amcanion-drafft-gwella.pdf

Mae adroddiad y Trysorydd ar berfformiad ariannol yr Awdurdod yn ystod 2016/17 hefyd ar gael ar
http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337723/0-agenda-busnes-yr-holl-adroddiadau.pdf

DRAFT

**Amcan Gwella 3**

**Bydd yr Awdurdod yn ail-falansio ei adnoddau i gyfateb i risg. Bydd yr Awdurdod yn cyflwyno ffordd newydd o gynllunio er mwyn sicrhau bod o leiaf 20 o griwiau tân wedi'u lleoli'n strategol ac ar gael yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol is, ac o leiaf 38 ar gael ar adegau o risg cymharol uwch.**

## Pam dewis yr amcan hwn?

Dewiswyd yr amcan hwn er mwyn ceisio adlewyrchu penderfyniad yr Awdurdod i ddarparu gwasanaethau tân ac achub sy'n gynaliadwy ac yn fforddiadwy yng Ngogledd Cymru.

Roedd ymateb y cyhoedd i ymgynghoriadau'r Awdurdod yn 2012 a 2015 yn arwydd o bwysigrwydd sicrhau bod criwiau tân ar gael 24 awr y dydd. Ond, mae llwyddo a pharhau i wneud hyn mewn ardal sy'n cael gofal gan ddiffoddwyr tân sydd ar gael yn ôl y galw (rhan amser) wedi mynd yn fwyfwy anodd. Mae pobl ar y cyfan yn gwybod lle mae eu gorsaf dân leol, ond ni fyddent yn gwybod lle mae eu criw tân agosaf ac *ar gael* ar adeg eu galwad.

Drwy symud oddi wrth leoliad y gorsafoedd tân (sef yr adeiladau) ac i gyfeiriad cynllunio a rheoli criwiau tân (sef y staff gweithredol), mae'r Gwasanaeth wedi ymdrin ag argaeledd mewn ffordd sy'n fwy hyblyg ac yn ymwneud â risg.

## Beth oedd y canlyniad disgwyliedig?

20 o leiaf o griwiau tân wedi'u lleoli'n strategol ac ar gael yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol is, a 38 o leiaf ar gael ar adegau o risg cymharol uwch.

## Pa gamau gweithredu a oedd yn yr arfaeth ar gyfer 2016-17?

Mynd ati'n fanwl i gynllunio bod gofal ar gael ar sail risg, gan geisio sicrhau bod 20 o leiaf o griwiau tân ar gael yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol is, a 38 o leiaf ar gael ar adegau o risg cymharol uwch.

DRAFT

**Beth yn benodol yr adroddir yn ei gylch i'r cyhoedd ar ddiwedd y flwyddyn?**

Y cynnydd a wneir mewn perthynas â chynllunio, sicrhau a chynnal y lefel ddisgwyliedig o griwiau i fod ar gael ledled yr ardal gyfan.

## A GYFLAWNWYD AMCAN 3: 2016-17?

Bydd cyflwyno system anfon allan gorchymyn a rheoli, sydd wedi'i integreiddio gyda'r datrysiadau cyfathrebu presennol, yn parhau i sicrhau bod criwiau'n cael eu hanfon allan yn gyflym a chywir, yn ogystal â chynorthwyo i ganfod unrhyw brinder yn y gofal.

Hefyd, bydd rhoi system argaeledd newydd ar gyfer y system RDS yn rhoi cyfle pellach i ganfod tueddiadau a chynorthwyo wrth dargedu gwaith recriwtio.

Mae'r Gwasanaeth wedi adolygu'r ffordd y mae'n cynllunio ar gyfer darparu gofal tân i gyfateb i adegau o risg is ac uwch. Mae dulliau monitro a rhagweld dyddiol wedi cael eu gwella i gynllunio gofal tân er mwyn sicrhau bod 20 o leiaf o griwiau tân wedi'u lleoli'n strategol ar gael yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol is, ac o leiaf 38 ar gael ar adegau o risg cymharol uwch.

Mae argaeledd y criwiau'n cael ei fonitro hefyd gan staff yr Ystafell Reoli, sy'n ymateb i unrhyw brinder oherwydd newidiadau byr-rybudd i argaeledd criwio, drwy ailddyrannu adnoddau o rannau eraill o'r Gwasanaeth.

DRAFT

**Amcan Gwella 4**

**Bydd yr Awdurdod yn chwilio am gyfleoedd i amrywio'r hyn a wneir gan ddiffoddwyr tân ac i gynnig gwasanaethau ychwanegol i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.**

**Pam dewis yr amcan hwn?**

Dros y blynyddoedd, cynyddodd yr Awdurdod faint o waith atal tanau a wnaed ochr yn ochr â'r gwaith ymateb i argyfyngau tân ac achub, ond cydnabuwyd y gellid gwneud mwy.

Mae dymuniad Llywodraeth Cymru i hyn ddigwydd yn cael ei adlewyrchu hefyd yn ei Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2016: *"…mae achos credadwy dros ddatblygu gwaith diogelwch tân domestig ATAau i gynnwys peryglon eraill y gall pobl eu hwynebu yn eu cartrefi eu hunain. Er enghraifft, mae 10% o'r holl alwadau 999 i Wasanaeth Ambiwlans Cymru yn ymwneud â phobl hŷn sydd wedi cwympo. Gallai llawer o'r rhain gael eu hatal trwy roi cyngor syml a darparu addasiadau sylfaenol. Yn 2014, roedd 26 o farwolaethau a ddigwyddodd yn uniongyrchol o ganlyniad i wenwyno â charbon monocsid yng Nghymru a Lloegr. Er ei bod yn amlwg bod gan sefydliadau eraill megis awdurdodau lleol a chymdeithasau tai gyfrifoldebau yn y maes hwnnw, mae ATAau mewn sefyllfa dda i roi cyngor o ran bod yn ymwybodol ac maent eisoes wedi gwneud hynny yn y gorffennol."*

**Beth oedd y canlyniad disgwyliedig?**

Bod pobl yn cael eu hamddiffyn yn well yn eu cartrefi a bod y galw ar wasanaethau eraill yn is nag y byddai wedi bod fel arall.

**Pa gamau gweithredu a oedd yn yr arfaeth ar gyfer 2016-17?**

Parhau i weithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid inni a thrwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus newydd i ganfod cyfleoedd newydd i gydweithio er mwyn gwella diogelwch yn y cartref yng Ngogledd Cymru.

**Beth yn benodol yr adroddir yn ei gylch i'r cyhoedd ar ddiwedd y flwyddyn?**

Cynnydd mewn perthynas â chytuno i rôl fwy amrywiol i ddiffoddwyr tân ac i ddarparu gwasanaethau ychwanegol i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

DRAFT

## A GYFLAWNWYD AMCAN 4: 2016-17?

Gwnaed cynnydd mawr o ran cytuno ar a sicrhau rôl mwy amrywiol i ddiffoddwyr tân yn y gymuned.

Yn Awst 2016, cafodd cynllun treialu ei lansio ar y cyd ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru lle oedd gweithwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymateb i bobl a oedd wedi cael codwm gartref ac yn methu â'u helpu eu hunain i ddiogelwch. Mae presenoldeb y Tîm Cymorth Cymunedol yn y digwyddiadau hyn wedi atal ambiwlansiau rhag gorfod dod yno yn y rhan fwyaf o adegau – gan ryddhau parafeddygon i ymateb i alwadau â blaenoriaeth uwch.

Yn ogystal â chyflwyno'r Tîm Cymorth Cymunedol, lansiwyd cynllun arall ym mis Medi 2016 i gynorthwyo Heddlu Gogledd Cymru i chwilio am bobl fregus y cafwyd adroddiadau eu bod ar goll o gartref. Cafodd hyfforddiant pwrpasol ei ddatblygu mewn partneriaeth ag Ymgynghorydd Chwilio Heddlu Gogledd Cymru, a'i gyflwyno i staff yng ngorsafoedd tân Wrecsam, Caernarfon, Caergybi, Bangor, Llandudno, Y Rhyl a Bae Colwyn.

Yn y tri mis cyntaf, cymerodd y criwiau ran mewn 17 o chwiliadau ac ymhob achos cafodd y person bregus ei ddarganfod yn fyw ac yn iach. Arhosodd y criwiau ar alwad ar gyfer digwyddiadau'r gwasanaeth tân tra oeddent yn chwilio am bobl. Ymunodd staff o'r Tîm Cymorth Cymunedol â'r prosiect hefyd i gynorthwyo i chwilio am y rhai a oedd ar goll.

Cafodd y ddau brosiect, a ddechreuwyd drwy Dîm Prosiect Atal ac Ymateb y Tri Gwasanaeth, eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Partneriaeth sy'n Canolbwyntio ar Broblem Heddlu Gogledd Cymru. Cafodd y gwobrau hyn eu lansio i geisio cydnabod a darparu gwobrau ariannol i'w hailfuddsoddi i fynd i'r afael â phroblemau ailadroddus cronig ledled y rhanbarth.

Fe wnaeth y prosiect cenedlaethol i dreialu cyd-ymateb, a ddechreuodd yng Ngogledd Cymru yn Ionawr 2016 barhau drwy gydol 2016/17. Cymerodd staff o Wrecsam, Bae Colwyn, Caergybi, Treffynnon, Llangollen, Dolgellau a Phwllheli ran yn y prosiect. Cafodd timau cyd-ymateb o'r gorsafoedd uchod eu hanfon allan rwy'r ystafell reoli, dan gyfarwyddyd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, at argyfyngau meddygol. Ni chafodd peiriannau tân eu defnyddio gan y timau cyd-ymateb, yn hytrach cafodd criwiau o ddau eu hanfon allan gan ddefnyddio cerbydau arbennig a mynd at y digwyddiadau ar gyflymder arferol y ffyrdd. Cafodd y prosiect ei ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad gwreiddiol sef Mehefin 2016 er mwyn ei gwneud yn bosibl i gasglu rhagor o ddata ac i werthuso.

DRAFT

# ADRAN 4

## Y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau yn 2016-17

Yn ystod 2012 fe wnaeth y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru fynd ati ar y cyd i ddatblygu Siarter Cymru gyfan i sicrhau bod pobl yng Nghymru, ni waeth ble y maent yn byw, yn gallu disgwyl cael cymorth a chefnogaeth i fod yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi, ac os bydd tân yn cychwyn byddant yn cael ymateb brys prydlon, effeithiol a phroffesiynol i'w galwad am gymorth.

Mae'r Siarter yn gwneud saith ymrwymiad penodol y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn gwneud y canlynol:

1. Byddwn yn cymryd yr awenau wrth ostwng nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.

2. Byddwn yn ymateb yn gyflym ac effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.

3. Byddwn yn cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r offer cywir i ymdrin â nhw.

4. Byddwn yn ymdrin â thanau mewn anheddau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.

5. Byddwn yn cyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.

6. Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau, ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.

7. Byddwn yn ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Mae'r tudalennau a ganlyn yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'n cydymffurfiad â'r ymrwymiadau hyn yn ystod 2016-17.

Er cysondeb, rydym yn cynnig defnyddio naratif safonol ar gyfer adrodd ynghylch y Siarter bob blwyddyn, a dim ond yn diweddaru'r ffigyrau o fewn fframwaith y naratif hwnnw.

DRAFT

**1. Byddwn yn cymryd yr awenau wrth ostwng nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.**

Rydym wedi ymrwymo i gymryd yr awenau wrth gynnal tueddiad am i lawr yn nifer yr achosion o danau mewn anheddau a'r anafusion cysylltiedig yng Nghymru.

Yn 2016-17 fe wnaethom ni ddarparu cyngor ac anogaeth i bobl ynglŷn â'r modd y gallant atal tanau rhag cychwyn yn eu cartref a sut y gallant eu cadw eu hunain yn ddiogel rhag tân. Roedd ein gweithgarwch atal tanau yn cynnwys cynnal 20,235 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref i breswylwyr, ac fe wnaeth 24,057 o blant a phobl ifanc yng Nghyfnodau Allweddol 1 - 4 dderbyn sgwrs ar ddiogelwch tân.

Yn ystod 2016-17 aethom at 433 o danau damweiniol mewn anheddau lle cafodd 4 o bobl eu lladd a lle cafodd 33 o bobl eraill eu hanafu.

Hefyd yn ystod 2016-17 aethom at 34 o danau mewn anheddau a gafodd eu cynnau'n fwriadol, lle cafodd un person ei ladd ac 2 o bobl eraill eu hanafu.

Mae'r tueddiad yn nifer y tanau mewn anheddau yn ardal yr ATA dros y pum mlynedd ddiwethaf yn dangos gostyngiad cyson.

Mae'r tueddiad yn nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu mewn tanau mewn anheddau yn ardal ATA Gogledd Cymru dros y pum mlynedd ddiwethaf yn dangos gostyngiad graddol.

**2. Byddwn yn ymateb yn gyflym ac effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.**

Rydym wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym ac effeithlon pan fo galwadau brys 999/112 yn cael eu trosglwyddo inni gan y gweithredwr.

Mae ein hystafell reoli tân ar gael yn barhaol, gyda threfniadau arbennig yn eu lle ar gyfer trosglwyddo galwadau'n llyfn o un ystafell i'r llall os bydd rhywbeth difrifol yn tarfu neu os bydd cynnydd mawr yn nifer y galwadau sy'n dod drwodd ar yr un pryd.

Mae systemau mapio a systemau electronig soffistigedig yn gymorth inni wneud y canlynol: a) canfod lleoliad y digwyddiad dan sylw a b) anfon yr adnodd mwyaf priodol sydd ar gael at y digwyddiad.

Yn 2016-17, fe wnaethom ni drin cyfanswm 13,654 o alwadau brys 999/112. Roeddem ni hefyd yn gallu cael digon o wybodaeth am ddigwyddiadau i rybuddio'r ymateb cychwynnol priodol cyn pen 90 eiliad ar 72.4% o adegau, a rhwng 91 a 120 o eiliadau ar 13.3% o adegau.

Fodd bynnag, gwyddom nad pa mor gyflym yr ydym yn trin yr alwad yw'r unig ffon fesur berthnasol – er bod hynny'n bwysig. Mae gwybod ble mae angen ein gwasanaeth yn gofyn am sgiliau arbenigol i gael gwybodaeth yn effeithiol gan bobl sy'n galw ac sydd, efallai, yn anghyfarwydd â'r ardal lle maent, yn ofnus neu mewn trallod, yn ifanc iawn, neu gydag anawsterau iaith neu gyfathrebu.

Sgil bwysig arall yw gwybod pryd y mae galwr yn camddefnyddio'r system 999/112 drwy honni bod yna argyfwng pan nad oes un mewn gwirionedd. Mae'n drosedd gwneud galwadau ffug i'r gwasanaethau brys. Yn anffodus, nid yw hyn yn rhwystro lleiafrif o bobl rhag defnyddio'r llinellau 999 a thynnu gwasanaethau oddi wrth bobl a allai fod mewn sefyllfa sy'n wirioneddol yn bygwth bywyd. Bob tro y byddwn yn mynd allan at y galwadau diangen mae amser ac arian yn cael eu gwastraffu ac mae'n gosod gweddill y gymuned mewn mwy o berygl.

Yn 2016-17, fe wnaethom ni dderbyn 162 o alwadau diangen maleisus. Yn 70.4% o'r achosion, roeddem wedi gallu sefydlu nad oedd y galwadau hyn yn rhai didwyll ac felly wedi osgoi anfon adnoddau allan yn ddiangen.

**3. Byddwn yn cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r offer cywir i ymdrin â nhw.**

Unwaith y byddwn wedi ateb yr alwad frys 999/112 ac wedi dyrannu'r adnoddau mwyaf priodol i fod yn bresennol gyntaf yn y digwyddiad, ein blaenoriaeth nesaf yw cyrraedd y digwydd yn gyflym, yn ddiogel a chyda'r offer cywir i ymdrin â'r mater.

Yn 2016-17 fe wnaethom ni ymateb i 13% o danau mewn anheddau o fewn 1-5 munud, 49% o fewn 5-10 munud, 22% o fewn 10-15 munud a 17% mewn 15 munud a mwy. Mae'r amseroedd hyn yn cynnwys yr amser mae'n ei gymryd i'r staff gyrraedd yr orsaf dân yn ogystal â'r amser teithio felly mae sawl peth yn gallu effeithio ar gyflymder y ffigyrau ymateb, gan gynnwys y ddaearyddiaeth drefol/wledig a natur rhwydweithiau'r ffyrdd yn yr ardal.

Mae cyflymder yr ymateb i danau mewn anheddau yn eithriadol bwysig ond ni allwn orbwysleisio mor bwysig yw atal y tanau hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf a chael o leiaf un larwm mwg gweithredol a chynllun dianc wedi ei gynllunio o flaen llaw rhag ofn y bydd tân. Fodd bynnag, os bydd tân mewn annedd, rydym yn sicrhau bod gan ein criwiau diffodd tân yr offer cywir i'w ddiffodd.

Mae gan ein diffoddwyr tân gyfarpar amddiffyn personol a chyfarpar diffodd tân, o safon. Rydym yn gofyn iddynt fod yn ffit ac yn iach ac yn gofalu bod eu sgiliau'n cael eu profi a'u hymarfer yn rheolaidd. Rydym hefyd yn mynd ati'n rheolaidd i wirio bod y ffordd y mae ein criwiau wedi trin digwyddiadau yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau derbyniol ar gyfer diffodd tanau.

Rydym yn cymryd diogelwch ein diffoddwyr tân yn gwbl o ddifrif, o ystyried natur y gwaith y maent yn ei wneud. Yn 2016-17 aeth ein criwiau at 2,015 o danau ar amrywiaeth o fathau gwahanol o safleoedd ac yn yr awyr agored. Wrth ddiffodd y tanau hynny, cafodd 10 o staff gweithredol anaf. I rai, bychan oedd yr anaf, ond i eraill roedd yr anaf yn ddigon difrifol iddynt orfod cymryd amser i ffwrdd er mwyn dod atynt eu hunain. I gyd, collwyd 46 o ddiwrnodau/shifftiau gwaith (gan gynnwys diwrnodau gorffwys) o ganlyniad i anafiadau personol a gafwyd naill ai wrth deithio i dân neu o dân, neu ar safle'r tân. Peth prin yw anafiadau difrifol i ddiffoddwyr tân – o blith yr uchod, roedd dau anaf 'penodol' dan Reoliadau RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ynghylch Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau).

**4. Byddwn yn ymdrin â thanau mewn anheddau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.**

Rydym wedi ymrwymo i ymdrin â thanau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol. I wneud hyn, mae ein criwiau'n cael y sgiliau, yr wybodaeth, y cyfarpar diffodd tân a chefnogaeth rheolwyr fel eu bod yn gwbl barod i ymdrin â'r tân mewn annedd, ni waeth beth fo'r amgylchiadau.

Yn 2016-17, o'r holl danau damweiniol mewn anheddau yr aethom atynt, llwyddwyd i gyfyngu 90% ohonynt i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn heb ledaenu ymhellach. Er y gallai nifer o ffactorau gyfrannu at yr ystadegyn hwn fod y tu hwnt i reolaeth y criwiau (megis faint o amser a gymerodd i rywun ddarganfod y tân yn y lle cyntaf, a oedd drysau mewnol wedi eu cau ai peidio er mwyn rhwystro'r tân rhag lledaenu, a faint o amser oddi wrth orsaf dân yr oedd yr annedd), rydym yn dal yn ystyried hyn yn ddangosydd rhesymol o'n llwyddiant wrth ddiffodd tanau.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymchwil a gwelliannau i gyfarpar, ac yn sicrhau ein bod yn buddsoddi amser ac ymdrech i ddysgu beth yw'r datblygiadau diweddaraf.

Rydym hefyd yn cymryd delwedd broffesiynol y gwasanaeth tân ac achub o ddifrif. Rydym yn rhoi pwys mawr ar nodweddion a rhinweddau personol pob un o'n staff gweithredol yn ogystal â'u ffitrwydd corfforol a seicolegol a safon uchel eu hyfforddiant rheoli a gweithredol.

Rydym yn annog pob un o'n staff i gadw at gyfres o werthoedd craidd a fabwysiadwyd yn genedlaethol gan wasanaethau tân ac achub y DU ac sy'n cyfleu ein hymrwymiad i roi gwerth ar wasanaeth i'r gymuned, i bobl, i amrywiaeth ac i wella.

**5. Byddwn yn cyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.**

Rydym wedi ymrwymo i gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.

Mae cael tân yn y cartref yn gallu gwneud i bobl deimlo'n fregus iawn. Pan fo pobl wedi colli eu heiddo bydd angen cymorth ymarferol yn ogystal â chymorth emosiynol. Pan fo pobl wedi cael eu hanafu neu eu lladd yn y tân, mae'r profiad yn gallu effeithio ar gymunedau gyfan yn ogystal â'r unigolyn a'i deulu agos a'i gyfeillion.

Oherwydd hyn nid yw cyfraniad y Gwasanaeth Tân ac Achub at gefnogi cymunedau yn dod i ben pan fo'r tân wedi cael ei ddiffodd a phawb wedi ei ddarganfod.

Ymhob achos, ymchwilir i achos y tân a gwneir cofnod manwl. Bydd yr holl fanylion ynglŷn â sut a ble y cychwynnodd y tân, pa mor bell y lledaenodd, unrhyw amgylchiadau arbennig, ac unrhyw ffactorau penodol a gyfrannodd at y tân yn cael eu cofnodi fel ffynhonnell ar gyfer dysgu, ymchwilio a monitro yn y dyfodol.

Os oes rheswm i gredu bod tân wedi ei gynnau'n fwriadol mewn annedd, naill ai gan rywun sy'n byw yno neu gan rywun arall, bydd yr Heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill yn mynd ar ôl hyn.



DRAFT

Ar rai safleoedd, megis blociau o fflatiau neu dai lle mae nifer o wahanol denantiaid yn byw, gallai'r ymchwiliadau ar ôl y digwyddiad ddangos bod landlord wedi methu sicrhau'r lefel angenrheidiol o ddiogelwch tân. Yna, gallai ein hymchwilwyr tân arbenigol fod yn rhan o ymchwiliad troseddau ac achos llys.

Os canfyddir bod tân wedi cychwyn yn ddamweiniol, byddwn efallai'n cynnal rhyw fath o weithgarwch diogelwch cymunedol neu ymgyrch yn y cyffiniau, gan gynnig cyngor a sicrwydd drwy Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref yn rhad ac am ddim.

**6. Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau, ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.**

Byddwn wastad yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau. Yn aml bydd achos a tharddiad tân yn eglur a syml iawn, ond weithiau bydd angen ymchwiliad mwy trylwyr a fforensig i wybod beth yw achos mwyaf tebygol y tân. Dim ond mewn lleiafrif bychan y bydd yr achos yn 'anhysbys'.

Os oes amheuaeth o drosedd, cynhelir yr ymchwiliad i'r tân gyda'r Heddlu. Mae pobl a amheuir o roi annedd ar dân yn debygol o wynebu achos troseddol, er mewn rhai achosion efallai nad dyma'r unig lwybr posibl – er enghraifft os cafodd y tân ei gynnau gan blentyn ifanc neu gan rywun yn ceisio cyflawn hunanladdiad.

Yn 2016-17, aethom at 467 o danau mewn anheddau, a chanfuwyd bod 34 ohonynt wedi cael eu cynnau'n fwriadol.

Mewn rhai adeiladau preswyl, megis fflatiau a thai amlfeddiannaeth, mae'r rhannau cyffredin sy'n cael eu rhannu yn dod dan reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwy bynnag sy'n gyfrifol am y safle (megis y landlord neu reolwr yr adeilad) gael trefniadau diogelwch tân da yn eu lle. Mae methu â gwneud hynny yn gallu arwain at gau'r safle ac erlyn y person sy'n gyfrifol gyda'r posibilrwydd o garchar a/neu ddirwyon anghyfyngedig.

Fel awdurdod gorfodi, rydym yn sicrhau bod personau syn gyfrifol yn cyflawni eu rhwymedigaethau dan y ddeddfwriaeth hon, a gallwn ddewis o blith ystod o opsiynau gorfodaeth sydd ar gael inni gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r tramgwydd a pha risg mae'n ei olygu.

Yn 2016-17, wnaethom ni ddim rhoi Hysbysiadau Gorfodaeth, Hysbysiadau Gwahardd na Rhybuddion Ffurfiol. Ni chwblhawyd unrhyw erlyniadau yn ystod y flwyddyn.

**7. Byddwn yn ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.**

Rydym yn mynd ati’n barhaus i ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Dan y ddeddfwriaeth, mae’r Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu categoreiddio’n ‘Awdurdodau Gwella Cymreig’ ac mae disgwyl iddynt adolygu’n rheolaidd a gwella’n barhaus eu perfformiad eu hunain drwy broses ffurfiol o osod, gweithredu ac adrodd ynghylch Amcanion Gwella blynyddol.

Ond nid ydym yn cyfyngu ein gweithgarwch gwella i’r broses flynyddol ffurfiol hon gan fod safonau uchel a gwelliant parhaus yn rhan annatod o’n gwaith bob dydd yn rhedeg y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Dyma rai enghreifftiau o weithgarwch gwella sy’n cael ei wneud:

- Mynd ati’n barhaus i adolygu perfformiad ac effeithiolrwydd y sefydliad er mwyn canfod cyfleoedd i wella
- Ymateb yn gadarnhaol i adolygiadau gan gymheiriaid, archwiliadau ac arolygiadau
- Ymateb yn gadarnhaol i ymatebion i ymgynghoriadau, adborth gan randdeiliaid, cwynion a chanmoliaeth
- Dysgu oddi wrth ein profiadau, megis drwy drafod ar ôl digwyddiadau, adroddiadau am ddamweiniau neu adroddiadau am ddamweiniau a fu bron â digwydd
- Cyfrannu at weithgorau, rhannu arferion da, a dysgu oddi wrth ymchwil sy’n cael ei gynnal
- Manteisio ar gyfleoedd i ddysgu oddi wrth – a chyda – sefydliadau eraill drwy bartneriaethau, pwyllgorau, byrddau a chymdeithasau proffesiynol
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl i’n gallu i gynnal ein gweithrediadau, megis drwy brosesau rheoli parhad busnes
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl i’n gallu i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, megis drwy fforymau cydnerthedd lleol
- Mynd ati’n barhaus i ddatblygu sgiliau technegol a phroffesiynol ein staff
- Cynnal ac adnewyddu ein hasedau materol a chyfrifiadurol, megis ein cyfarpar, ein cerbydau, ein hadeiladau a’n technoleg.



DRAFFT

## Iechyd a Diogelwch yn 2016-17

Mae Tân ac Achub Gogledd Cymru yn trin iechyd a diogelwch ei staff yn gwbl o ddifrif. Er bod 2016-17 wedi gweld mymryn o gynnydd yn nifer yr anafiadau a gafwyd gan staff gweithredol, rydym yn falch fod cyfanswm nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd wedi gostwng 213 diwrnod.

| | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|
| Nifer yr anafiadau i staff gweithredol mewn tanau, digwyddiadau nad oeddent yn danau ac yn ystod hyfforddiant ar gyfer digwyddiadau gweithredol. | 34 | 39 |
| Anafiadau 'dros 7 diwrnod' | 8 | 9 |
| Anafiadau mawr Rheoliadau RIDDOR | 1 | 0 |
| Cyfanswm y diwrnodau gwaith a gollwyd yn dilyn anaf | 502 | 289 |

Ni fu unrhyw anafiadau angheuol yn ystod y flwyddyn. O gymharu, roedd yr ystadegau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch[19] ar nifer y gweithwyr a anafwyd yn angheuol ym Mhrydain yn 2016-17 yn dweud bod 0.43 o farwolaethau am bob 100,000 o weithwyr. Yn y sector gwatraff ac ailgylchu yr oedd y gyfradd uchaf o anafiadau angheuol, gyda 12.69 o farwolaethau am bob 100,000 o weithwyr.

[19]Ystadegau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar anafiadau angheuol yn y gweithle 2015/16.
http://www.hse.gov.uk/statistics/pdf/fatalinjuries.pdf

# ADRAN 5

## CRYNODEB O WYBODAETH AM BERFFORMIAD

Cafodd ymgynghoriad ar set newydd o Ddangosyddion Perfformiad (DPau) ei gynnal rhwng 28 Tachwedd 2014 a 30 Ionawr 2015. Mae copi o'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru: http://gov.wales/consultations/people-and-communities/performance-indicators-consultation/?status=closed&lang=cy

O ganlyniad i hynny, cyflwynwyd Gorchymyn newydd yn nodi tri DP Statudol ar gyfer ATAau. Daeth Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad (Cymru) 2015 (O.S.2015/604(Cy.49)) i rym ar 1 Ebrill 2015 ac mae'n cael effaith mewn perthynas â blwyddyn 2015-16 a'r blynyddoedd ariannol wedi hynny.

| DANGOSYDDION STATUDOL CENEDLAETHOL | | | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| RRC/S/001i | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y tanau yr aethpwyd atynt | 2,140 | 2,015 |
| | Enwadur | Poblogaeth ardal yr ATA | 694,038 | 694,473 |
| | **am bob 10,000 o boblogaeth** | | **30.83** | **29.01** |
| | | | | |
| RRC/S/001ii | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y galwadau diangen yr aethpwyd atynt | 1,995 | 2,140 |
| | Enwadur | Poblogaeth ardal yr ATA | 694,038 | 694,476 |
| | **am bob 10,000 o boblogaeth** | | **28.74** | **30.81** |
| | | | | |
| RRC/S/001iii | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y gwrthdrawiadau traffig ar yr ffyrdd yr aethpwyd atynt | 212 | 215 |
| | Enwadur | Poblogaeth ardal yr ATA | 694,038 | 694,473 |
| | **am bob 10,000 o boblogaeth** | | **3.05** | **3.10** |
| | | | | |
| RRC/S/001iv | Rhifiadur | Cyfanswm nifer yr holl ddigwyddiadau brys yr aethpwyd atynt | 532 | 978 |
| | Enwadur | Poblogaeth ardal yr ATA | 694,038 | 694,473 |
| | **am bob 10,000 o boblogaeth** | | **7.67** | **14.08** |



DRAFT

| DANGOSYDDION STATUDOL CENEDLAETHOL | | | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| RRC/S/002i | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tanau | 74 | 50 |
| | Enwadur | Poblogaeth ardal yr ATA | 694,038 | 694,476 |
| | **am bob 10,000 o boblogaeth** | | **10.66** | **7.20** |
| | | | | |
| RRC/S/002ii | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tanau a gychwynnodd yn ddamweiniol | 63 | 44 |
| | Enwadur | Poblogaeth ardal yr ATA | 694,038 | 694,476 |
| | **am bob 10,000 o boblogaeth** | | **9.08** | **6.34** |
| | | | | |
| RRC/S/003 | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y tanau mewn anheddau a gyfyngwyd i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn | 388 | 419 |
| | Enwadur | Cyfanswm nifer tanau mewn anheddau | 428 | 467 |
| | | | **90.65%** | **89.72%** |

| DANGOSYDDION Y SECTOR[20] | | | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| FRS/SEC/FI/001i | Rhifiadur | Cyfanswm nifer yr holl danau bwriadol | 703 | 594 |
| | Enwadur | Poblogaeth ardal yr ATA | 694,038 | 694,473 |
| | **am bob 10,000 o boblogaeth** | | **10.13** | **8.55** |
| | | | | |
| FRS/SEC/FI/001ii | Rhifiadur | Cyfanswm nifer yr holl danau damweiniol (neu'r cymhelliad yn anhysbys) | 1,437 | 1,421 |
| | Enwadur | Poblogaeth ardal yr ATA | 694,038 | 694,476 |
| | **am bob 10,000 o boblogaeth** | | **20.70** | **20.46** |
| | | | | |
| FRS/SEC/FI/001iii | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y tanau mewn anheddau | 428 | 467 |
| | Enwadur | Cyfanswm nifer yr anheddau yn ardal yr ATA | 322,643 | 324,299 |
| | **Am bob 10,000 o anheddau** | | **13.27** | **14.40** |
| | | | | |

[20] Daw ffigyrau poblogaeth, nifer yr anheddau a'r safleoedd annomestig o adroddiadau data blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16.



DRAFT

| DANGOSYDDION Y SECTOR[20] | | | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| FRS/SEC/FI/001iv | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y tanau damweiniol mewn anheddau | 385 | 433 |
| | Enwadur | Cyfanswm nifer yr anheddau yn ardal yr ATA | 322,643 | 324,299 |
| | **am bob 10,000 o anheddau** | | **11.93** | **13.35** |
| | | | | |
| FRS/SEC/FI/001v | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y tanau bwriadol mewn anheddau | 43 | 34 |
| | Enwadur | Cyfanswm nifer yr anheddau yn ardal yr ATA | 322,643 | 324,299 |
| | **am bob 10,000 o anheddau** | | **1.33** | **1.05** |
| | | | | |
| FRS/SEC/FI/001vi | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y tanau mewn eiddo annomestig | 160 | 144 |
| | Enwadur | Cyfanswm nifer yr eiddo annomestig yn ardal yr ATA | 28,839 | 29,175 |
| | **am bob 1,000 o eiddo annomestig** | | **5.55%** | **4.94** |
| | | | | |
| FRS/SEC/IN/002i | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y marwolaethau'n gysylltiedig â thanau | 6 | 5 |
| | Enwadur | Poblogaeth ardal yr ATA | 694,038 | 694,473 |
| | **am bob 100,000 o boblogaeth** | | **0.86** | **0.72** |
| | | | | |
| FRS/SEC/IN/002ii | Rhifiadur | Cyfanswm nifer yr anafiadau a achoswyd gan danau | 68 | 45 |
| | Enwadur | Poblogaeth ardal yr ATA | 694,038 | 694,473 |
| | **am bob 100,000 o boblogaeth** | | **9.80** | **6.48** |
| | | | | |
| FRS/SEC/IN/002iii | Rhifiadur | Cyfanswm nifer yr anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau | 3 | 4 |
| | Enwadur | Poblogaeth ardal yr ATA | 694,038 | 694,473 |
| | **am bob 100,000 o boblogaeth** | | **0.43%** | **0.58** |
| | | | | |
| FRS/SEC/IN/002iv | Rhifiadur | Cyfanswm nifer yr anafusion mewn tanau bwriadol mewn anheddau | 0 | 0 |
| | Enwadur | Poblogaeth ardal yr ATA | 694,038 | 694,473 |
| | **am bob 100,000 o boblogaeth** | | **0.00** | **0.00** |
| | | | | |
| FRS/SEC/IN/002v | Rhifiadur | Cyfanswm nifer yr anafiadau'n ymwneud â thanau damweiniol mewn anheddau | 47 | 33 |
| | Enwadur | Poblogaeth ardal yr ATA | 694,038 | 694,473 |
| | **am bob 100,000 o boblogaeth** | | **6.77** | **4.75** |
| FRS/SEC/IN/002vi | Rhifiadur | Cyfanswm nifer yr anafiadau'n gysylltiedig â thân mewn tanau bwriadol | 7 | 2 |

DRAFT

| DANGOSYDDION Y SECTOR[20] | | | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| | | mewn cartrefi | | |
| | Enwadur | Poblogaeth ardal yr ATA | 694,038 | 694,473 |
| | **am bob 100,000 o boblogaeth** | | **1.01** | **0.29** |
| | | | | |
| FRS/SEC/FA/03i | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y galwadau diangen gan larymau tân awtomatig ar safleoedd annomestig | 282 | 345 |
| | Enwadur | Cyfanswm nifer yr eiddo annomestig yn ardal yr ATA | 28,839 | 29,175 |
| | **am bob 1,000 o eiddo annomestig** | | **9.78** | **0.29** |
| | | | | |
| FRS/SEC/FA/03ii | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y galwadau diangen gan larymau tân awtomatig mewn cartrefi | 682 | 806 |
| | Enwadur | Cyfanswm nifer yr anheddau yn ardal yr ATA | 322,643 | 29,175 |
| | **am bob 10,000 o anheddau** | | **21.14** | **11.83** |
| | | | | |
| FRS/SEC/SA/04i | Rhifiadur | Cyfanswm nifer yr anafiadau'n ymwneud â thanau bwriadol mewn anheddau | 62 | 71 |
| | Enwadur | Cyfanswm nifer y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt yn ardal yr ATA | 428 | 467 |
| | | | **14.49** | **15.20** |

DRAFT

| DANGOSYDDION STRATEGOL CENEDLAETHOL | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| RRC/S/001i N Cyfanswm nifer y tanau | 3,297 | 3,165 | 2,349 | 2,416 | 2,244 |
| RRC/S/001i D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 10,000 o boblogaeth** | **48.57** | **46.65** | **34.12** | **34.99** | **32.43** |
| | | | | | |
| RRC/S/001ii N Cyfanswm nifer yr holl brif danau | 1,346 | 1,299 | 1,143 | 1,117 | 1,063 |
| RRC/S/001ii D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 10,000 o boblogaeth** | **19.83** | **19.15** | **16.60** | **16.18** | **15.36** |
| | | | | | |
| RRC/S/001iii N Cyfanswm nifer y tanau damweiniol mewn anheddau | 469 | 474 | 454 | 479 | 401 |
| RRC/S/001iii D Cyfanswm nifer yr anheddau yn ardal yr ATA | 305,583 | 317,051 | 318,404 | 319,771 | 321,061 |
| **am bob 10,000 anheddau** | **15.35** | **14.95** | **14.26** | **14.98** | **12.49** |
| | | | | | |
| RRC/S/001iv N Cyfanswm nifer yr holl danau bwriadol | 1,438 | 1,370 | 835 | 792 | 724 |
| RRC/S/001iv D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 10,000 o boblogaeth** | **21.19** | **20.19** | **12.13** | **11.47** | **10.46** |
| | | | | | |
| RRC/S/002i N Cyfanswm nifer y marwolaethau oherwydd tân | 10 | 8 | 8 | 3 | 5 |
| RRC/S/002i D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **1.47** | **1.18** | **1.16** | **0.43** | **0.72** |
| | | | | | |
| RRC/S/002ii N Cyfanswm nifer y marwolaethau oherwydd tanau damweiniol | 10 | 8 | 3 | 3 | 4 |
| RRC/S/002ii D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **1.47** | **1.18** | **0.44** | **0.43** | **0.67** |
| | | | | | |
| RRC/S/002iii N Cyfanswm nifer y marwolaethau a achoswyd gan danau a gynheuwyd yn fwriadol | 0 | 0 | 5 | 0 | 1 |
| RRC/S/002iii D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **0.00** | **0.00** | **0.73** | **0.00** | **0.14** |

DRAFT

| DANGOSYDDION STRATEGOL CENEDLAETHOL | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| RRC/S/002iv N Cyfanswm nifer yr anafiadau oherwydd tân (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) | 97 | 64 | 60 | 101 | 53 |
| RRC/S/002iv D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **14.29** | **9.43** | **8.72** | **14.63** | **7.66** |
| | | | | | |
| RRC/S/002v N Cyfanswm nifer yr anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) o ganlyniad i danau a gynheuwyd yn fwriadol | 86 | 56 | 55 | 80 | 48 |
| RRC/S/002v D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **12.67** | **8.25** | **7.99** | **11.59** | **6.94** |
| | | | | | |
| RRC/S/002vi N Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) oherwydd tanau a gynheuwyd yn fwriadol | 11 | 8 | 5 | 21 | 5 |
| RRC/S/002vi D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **1.62** | **1.18** | **0.73** | **3.04** | **0.72** |
| | | | | | |
| RRC/S/003 N Nifer y tanau ar safleoedd annomestig | 229 | 215 | 147 | 115 | 139 |
| RRC/S/003 D Nifer y safleoedd annomestig yn ardal yr ATA | 27,419 | 27,484 | 27,759 | 28,083 | 28,334 |
| **am bob 1,000 o boblogaeth** | **8.35** | **7.82** | **5.30** | **4.10** | **4.91** |
| | | | | | |
| RRC/C/006 Nifer y cartrefi lle bu tân a oedd wedi cael archwiliad diogelwch tân yn y cartref a/neu wedi cael gweithgareddau lleihau risg cysylltiedig yn ystod y ddwy flynedd cyn y tân. ***(Cyfeirnod RRC/S/004iv yn 2012-13 a 2013-14)*** | 134 | 164 | 145 | 148 | 116 |

DRAFT

| DANGOSYDDION CRAIDD | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| RRC/C/001i N Marwolaethau a achoswyd gan danau damweiniol mewn anheddau | 10 | 6 | 3 | 3 | 2 |
| RRC/C/001i D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **1.47** | **0.88** | **0.44** | **0.43** | **0.29** |
| | | | | | |
| RRC/C/001ii1 N Marwolaethau a achoswyd gan danau bwriadol mewn anheddau | 0 | 0 | 5 | 0 | 1 |
| RRC/C/001ii D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **0.00** | **0.00** | **0.73** | **0.00** | **0.14** |
| RRC/C/001iii N Marwolaethau a achoswyd gan danau damweiniol ar safleoedd annomestig | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| RRC/C/001iii D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.14** |
| | | | | | |
| RRC/C/001iv N Marwolaethau a achoswyd gan danau bwriadol ar safleoedd annomestig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| RRC/C/001iv D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| | | | | | |
| RRC/C/001v N Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau | 53 | 34 | 45 | 58 | 35 |
| RRC/C/001v D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **7.81** | **5.01** | **6.54** | **8.40** | **5.06** |
| | | | | | |
| RRC/C/001vi N Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) oherwydd tanau bwriadol mewn anheddau | 9 | 4 | 3 | 8 | 4 |
| RRC/C/001vi D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **1.33** | **0.59** | **0.44** | **1.16** | **0.58** |
| | | | | | |
| RRC/C/001vii N Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) oherwydd tanau damweiniol ar safleoedd annomestig | 14 | 3 | 2 | 2 | 3 |
| RRC/C/001vii D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **2.06** | **0.44** | **0.29** | **0.29** | **0.43** |

DRAFT

| DANGOSYDDION CRAIDD | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| RRC/C/001viii N Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) oherwydd tanau bwriadol ar safleoedd annomestig | 1 | 0 | 0 | 8 | 0 |
| RRC/C/001viii D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **0.15** | **0.00** | **0.00** | **1.16** | **0.00** |
| | | | | | |
| RRC/C/002i N Cyfanswm nifer y galwadau diangen maleisus a gafwyd | 491 | 538 | 473 | 382 | 194 |
| RRC/C/002i D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 1,000 o boblogaeth** | **0.72** | **0.79** | **0.69** | **0.55** | **0.28** |
| | | | | | |
| RRC/C/002ii N Cyfanswm nifer y galwadau diangen maleisus nad aethpwyd atynt | 373 | 405 | 367 | 305 | 117 |
| RRC/C/002ii D Cyfanswm nifer y galwadau diangen maleisus a gafwyd | 491 | 538 | 473 | 382 | 194 |
| **% o'r cyfanswm nad aethpwyd atynt** | **75.97%** | **75.28%** | **77.59%** | **79.84%** | **60.31%** |
| | | | | | |
| RRC/C/002iii N Cyfanswm nifer y galwadau diangen maleisus yr aethpwyd atynt | 118 | 133 | 106 | 77 | 77 |
| RRC/C/002iii D Cyfanswm nifer y galwadau diangen maleisus a gafwyd | 491 | 538 | 473 | 382 | 194 |
| **% o'r cyfanswm nad aethpwyd atynt** | **24.03%** | **24.72%** | **22.41%** | **20.16%** | **39.69%** |
| | | | | | |
| RRC/C/003 N Cyfanswm nifer y galwadau diangen a achoswyd gan systemau larwm awtomatig ar safleoedd annomestig | 1,322 | 1,411 | 1,350 | 1,211 | 1,250 |
| RRC/C/003 D Nifer y safleoedd annomestig yn ardal yr ATA | 27,419 | 27,484 | 27,759 | 28,083 | 28,334 |
| **am bob 1,000 o safleoedd annomestig** | **48.21** | **51.34** | **48.63** | **43.12** | **44.12** |
| | | | | | |
| RRC/C/004i N Nifer y prif danau bwriadol | 373 | 367 | 286 | 243 | 222 |
| RRC/C/004i D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **Am bob 10,000 o boblogaeth** | **5.50** | **5.41** | **4.15** | **3.52** | **3.21** |
| | | | | | |
| RRCC/004ii N Nifer y tanau eilaidd bwriadol | 1,065 | 1,003 | 549 | 549 | 502 |
| RRC/C/004ii D Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **Am bob 10,000 o boblogaeth** | **15.69** | **14.78** | **7.97** | **7.95** | **7.25** |

DRAFT

| DANGOSYDDION CRAIDD | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| RRCC/004iii N Nifer y tanau bwriadol mewn anheddau | *66* | 56 | 39 | 40 | 37 |
| RRCC/004iii D Nifer yr anheddau yn ardal yr ATA | *305,583* | 317,051 | 318,404 | 319,771 | 321,061 |
| **Am bob 10,000 anheddau (*y data'n ofyniad newydd ar gyfer 2011-12)*** | ***2.16*** | **1.77** | **1.22** | **1.25** | **1.15** |
| | | | | | |
| RRC/C/005i N Tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt lle'r oedd larwm mwg a/neu offer arall i ganfod tân wedi canu | 329 | 321 | 293 | 305 | 286 |
| RRC/C/005i D Cyfanswm nifer y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt | 535 | 530 | 493 | 519 | 438 |
| **% lle'r oedd larwm wedi canu** | **61.50%** | **60.57%** | **59.43%** | **58.77%** | **65.3%** |
| | | | | | |
| RRC/C/005ii N Tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt lle'r oedd larwm mwg a/neu offer arall i ganfod tân wedi eu gosod ond heb ganu | 118 | 129 | 128 | 130 | 100 |
| RRC/C/005ii D Cyfanswm nifer y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt | 535 | 530 | 493 | 519 | 438 |
| **% lle'r oedd larwm yno ond heb ganu** | **22.06%** | **24.34%** | **25.96%** | **25.05%** | **22.83%** |
| | | | | | |
| RRC/C/005iii N Tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt lle'r oedd larwm mwg a/neu offer arall i ganfod tân heb eu gosod | 88 | 80 | 72 | 84 | 52 |
| RRC/C/005iii D Cyfanswm nifer y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt | 535 | 530 | 493 | 519 | 438 |
| **% lle nad oedd larwm yno** | **16.45%** | **15.09%** | **14.60%** | **16.18%** | **11.87%** |
| CHR/ C/004i N Cyfanswm nifer y diwrnodau gwaith/shifftiau cyfwerth â llawn amser a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch gan yr holl staff (ac eithrio staff y System RDS) | 3,259 | 3,969 | 4,530 | 4,423 | 4,293 |
| CHR/ C/004i D Nifer gyfartalog yr holl staff (ac eithrio staff y System RDS) fel cyfwerth â llawn amser | 459.00 | 445.91 | 429.53 | 416.10 | 416.49 |
| **diwrnodau/shifftiau a gollwyd am bob person** | **7.10** | **8.90** | **10.5** | **10.6** | **10.3** |
| | | | | | |
| CHR/ C/004ii N Cyfanswm nifer y diwrnodau gwaith/shifftiau cyfwerth â llawn amser a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch gan staff lifrai amser cyflawn | 1,963 | 2,261 | 2,433 | 2,399 | 2,389 |
| CHR/ C/004ii D Nifer gyfartalog staff lifrai amser cyflawn fel cyfwerth â llawn amser | 290 | 277.50 | 262.00 | 247.00 | 245.75 |
| **diwrnodau/shifftiau a gollwyd am bob person** | **6.80** | **8.15** | **9.3** | **9.7** | **9.7** |

DRAFT

| DANGOSYDDION CRAIDD | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| CHR/ C/004iii N Cyfanswm nifer y diwrnodau gwaith/shifftiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch gan staff yr ystafell reoli | 227 | 276 | 259 | 242 | 189 |
| CHR/ C/004iii D Nifer gyfartalog staff yr ystafell reoli fel cyfwerth â llawn amser | 28.57 | 28.23 | 28.50 | 28.5 | 27.25 |
| **diwrnodau/shifftiau a gollwyd am bob person** | **7.90** | **9.78** | **9.1** | **8.5** | **6.9** |
| | | | | | |
| CHR/ C/004iv N Cyfanswm nifer y diwrnodau gwaith/shifftiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch gan staff anweithredol | 1,069 | 1,432 | 1,838 | 1,782 | 1,715 |
| CHR/ C/004iv D Nifer gyfartalog staff anweithredol fel cyfwerth â llawn amser | 141 | 140.18 | 139.03 | 140.6 | 143.49 |
| **diwrnodau/shifftiau a gollwyd am bob person** | **7.60** | **10.22** | **13.2** | **12.7** | **12.0** |
| | | | | | |
| CHR/ C/005i N Cyfanswm nifer yr ymddeoliadau ar sail afiechyd | 11 | 11 | 7 | 9 | 1 |
| CHR/ C/005i D Nifer gyfartalog cyfanswm gweithwyr y GTA | 1,046 | 1,020.50 | 941.50 | 890.5 | 878.5 |
| **fel % o’r holl weithlu** | **1.10%** | **1.08%** | **0.7%** | **1.0%** | **0.1** |
| | | | | | |
| CHR/ C/005ii N Nifer yr ymddeoliadau ar sail afiechyd gan staff gweithredol amser cyflawn | 4 | 4 | 1 | 2 | 1 |
| CHR/ C/005ii D Nifer y staff gweithredol amser cyflawn | 289.50 | 277.50 | 262.00 | 247.00 | 250.00 |
| **fel % o’r holl weithlu amser cyflawn** | **1.40%** | **1.44%** | **0.4%** | **0.8%** | **0.4%** |
| | | | | | |
| CHR/ C/005iii N Nifer yr ymddeoliadau ar sail afiechyd gan staff y System RDS | 6 | 6 | 4 | 6 | 0 |
| CHR/ C/005iii D Nifer gyfartalog staff y System RDS | 571.0 | 557.0 | 497.50 | 462.5 | 445.5 |
| **fel % o holl weithlu’r System RDS** | **1.05%** | **1.08%** | **0.8%** | **1.3%** | **0.0%** |
| | | | | | |
| CHR/ C/005iv N Nifer yr ymddeoliadau ar sail afiechyd gan staff yr Ystafell Reoli | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| CHR/ C/005iv D Nifer gyfartalog staff yr Ystafell Reoli | 33 | 32 | 31.50 | 31.50 | 30 |
| **fel % o holl weithlu’r Ystafell Reoli** | **0.00%** | **3.13%** | **0.00%** | **0.00%** | **0.00%** |
| | | | | | |
| CHR/ C/005v N Nifer yr ymddeoliadau ar sail afiechyd gan staff anweithredol | 1 | 0 | 2 | 1 | 0 |
| CHR/ C/005v D Nifer gyfartalog y staff anweithredol | 152.5 | 154.00 | 150.50 | 149.50 | 153 |
| **fel % o’r holl weithlu anweithredol** | **0.70%** | **0.00%** | **1.3%** | **0.7%** | **0** |

DRAFT

| DANGOSYDDION LLEOL | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y tanau eilaidd yr aethpwyd atynt | 1,626[21] | 1,613 | 887 | 1,087 | 964 |
| Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 10,000 o boblogaeth** | **23.94** | **23.77** | **12.88** | **15.74** | **13.93** |
| | | | | | |
| Cyfanswm nifer y galwadau diangen maleisus yr aethpwyd atynt | 118 | 133 | 106 | 77 | 77 |
| Poblogaeth ardal yr ATA | 678,750 | 678,461 | 688,417 | 690,434 | 691,986 |
| **am bob 1,000 o boblogaeth** | **0.17** | **0.20** | **0.15** | **0.11** | **0.11** |
| | | | | | |
| **Lleol Cyfanswm nifer yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd** | **36,905** | **28,472** | **22,201** | **26,622**** | **27,352** |
| | | | | | |
| **Lleol Canran y tanau damweiniol mewn anheddau a gyfyngwyd i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn** | **91%** | **92%** | **91%** | **92%** | **89%** |

**Er mai 26,622 a adroddwyd ar ddiwedd y flwyddyn, nid oedd hyn yn cymryd i ystyriaeth yr adroddiadau a oedd wrthi'n mynd rhagddynt. Cododd y ffigwr terfynol i 26,703 ar gyfer 2013/14. Rydym yn ceisio cwtogi'r amser y mae'n ei gymryd inni dderbyn yr wybodaeth i'w roi yn ein cronfa ddata electronig.

[21] Diwygiwyd wedi'r archwiliad.

# ADRAN 6

## CYNLLUN GWEITHREDU – ADRODD YNGHYLCH AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2016-2017

| **Bywyd ac Iechyd** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb 1: Gostwng nifer tanau mewn cartrefi a'r anafusion cysylltiedig drwy strategaeth ataliol gynhwysfawr sy'n benodol yn targedu pobl y gellir dangos eu bod mewn mwy o risg oherwydd eu nodweddion a/neu amgylchiadau arbennig.** | | | |
| **Amcan Cydraddoldeb 1** | **Camau Gweithredu** | **Rheolwr Arweiniol** | **Blwyddyn Gynnydd 2016-2017** |
| Prosesu map Archwiliadau Diogelwch yn y cartref o'r ceisiadau a'r angen a ganfyddir hyd at eu cwblhau. | Cwblhau ymarferion mapio proses cynhwysfawr wedi'i anelu at wella effeithlonrwydd gwaith cynllunio a chyflawni Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref gan alluogi'r Gwasanaeth i ganolbwyntio fwy ar bobl y mae eu nodweddion, eu hamgylchiadau a/neu eu hymddygiadau'n eu gosod mewn categorïau mwy bregus. | Rheolwr Cynllunio Corfforaethol | Cafodd digwyddiad mapio proses ei fynychu gan amrywiaeth o staff y Gwasanaeth ym mis Tachwedd 2016, ond bu'n rhaid i lwyth gwaith ychwanegol annisgwyl ar yr adran yn ystod y flwyddyn gael blaenoriaeth, mae'r gwaith dilynol i ffurfioli argymhellion ar gyfer gwella wedi dod i stop.<br>Felly, bydd y gwaith arfaethedig hwn yn cael ei gario drosodd o flwyddyn ariannol 2017/18. |
| Adolygu'r broses asesiadau effaith cydraddoldeb a sefydlu gweithdrefn ar gyfer sicrhau ansawdd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC). | Adolygu'r templed a chyfarwyddyd AEC; sefydlu a fyddai templed diwygiedig yn gymorth i'r staff gynnal AECau. Manteisio ar y cyfle i integreiddio ffurflen AEC wedi'i hailwampio, codi ymwybyddiaeth a gwella ansawdd AEC ar y cyd ag adolygiad Safonau Gwasanaeth Proffesiynol (SGP) o strwythur polisïau'r Gwasanaeth. Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn asesu'r broses AEC presennol ac yn gwneud sylwadau i broses ymgynghori'r SGP.<br>Fel rhan o'r adolygiad hwn ystyrir cyflwyno panel sicrwydd ansawdd i adolygu a chymeradwyo AECau | Ymgynghorydd Cydraddoldeb | Mae'r Grŵp Iechyd, Diogelwch a Llesiant wedi adolygu strwythur polisïau'r Gwasanaeth, ac mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb wedi asesu'r broses AEC bresennol, gan gynnwys y ffurflenni a'r cyfarwyddyd.<br><br>Mae'r adran Safonau Gwasanaeth Proffesiynol a'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb wedi trafod y polisibirwydd o asesiad effaith integredig; byddai hyn yn ymgorffori asesiadau gofynnol eraill a rhwymedigaethau cyfreithiol gan gynnwys gofynion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y grŵp yn gweithio i lunio templed asesu integredig, gyda chyfarwyddyd. Bydd y cyfarwyddyd a'r templed yn ymgorffori pob maes gyda gofyniad cyfreithiol. Fel rhan o'r broses hon, mae SGP wedi sefydlu proses i sicrhau ansawdd y polisïau a'r asesiadau effaith a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | wedi'u cwblhau. | | gyflwynwyd gan y rheolwyr cyn i'r polisi fynd at y Grŵp gweithredol i'w gymeradwyo. |
| **Amcan Cydraddoldeb 1** | **Camau Gweithredol** | **Swyddog Arweiniol** | **Blwyddyn Adrodd ynghylch Cynnydd 2016-2017** |
| Datblygu dull targedol a chyson o gasglu a dehongli data risg yng nghyd-destun nodweddion gwarchodedig, i ddeall yn llwyr a oes unrhyw grwpiau penodol mewn mwy o berygl o dân na'r llall. | Comisiynu proffil problem strategol i ddeall proffil y rhai sydd wedi cael eu lladd neu eu hanafu mewn digwyddiadau blaenorol. Gallai hyn yn gynnwys deall y risgiau sy'n gysylltiedig ag arferiad penodol, ynghyd â phroffil o le mae'r grwpiau neu'r unigolion penodol yn byw yng Ngogledd Cymru | Uwch Reolwr Diogelwch Tân | Cafodd proffil problem cychwynnol ei gomisiynu a'i gwblhau.<br><br>Bydd y gwaith yn parhau i ganfod a thargedu'r rhai yr ystyrir eu bod fwyaf mewn perygl ac angen archwiliadau 'Diogel ac Iach'.<br><br>Mae'r Gwasanaeth eisoes wedi cael manylion am y bobl yr ystyrir eu bod mewn mwy o berygl o ganlyniad i'w hoedran, a defnyddir hyn i dargedu gweithgareddau yn y flwyddyn i ddod. |
| Targedu'r rhai sydd eisoes yn hysbys am fod mewn mwy o berygl o dân ar gyfer addysg ac ymyriad o ganlyniad i nodweddion gwarchodedig oedran ac anabledd. | Defnyddio atgyfeiriadau gan bartneriaid a dulliau eraill i dargedu'r rhai sy'n hysbys am fod mewn mwy o berygl o dân, ar sail oedran neu anabledd.<br><br>Datblygu proses Asesu Risg Codwm i'w rhoi ar waith yn raddol yng Ngogledd Cymru.<br><br>Datblygu gwasanaeth ymateb i godwm mewn partneriaeth â Theleofal ac YGAC | Uwch Reolwr Diogelwch Tân | Mae atgyfeiriadau gan bartneriaid yn dal yn un o'r gofynion allweddol ar gyfer cyflawni ein strategaeth sy'n ymwneud ag archwiliadau Diogel ac Iach.<br><br>Mae FRAT (dull asesu risg codwm) wedi cael ei ymgorffori yn yr archwiliad Diogel ac Iach, ac mae llwybrau atgyfeirio ar gael mewn tair sir yng Ngogledd Cymru.<br><br>Datblygwyd cynllun treialu ymateb i godwm, a'i gyflwyno gyda chryn lwyddiant. Arhosir am benderfyniadau ynglŷn â'i roi ar waith yn ehangach. |
| Datblygu system newydd i reoli gwybodaeth am risg sy'n berthnasol i'r unigolyn yn hytrach na'r safle, er mwyn gallu bod yn fwy effeithiol wrth reoli anghenion y rhai sydd fwyaf mewn perygl o dân. | Datblygu'r gofynion prosesau busnes a chomisiynu naill ai system newydd neu wneud diwygiadau i'n systemau presennol er mwyn gallu cofnodi gwybodaeth am risgiau penodol pobl. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân | Mae prosiectau mawr o fewn TGCh wedi golygu y bydd angen i'r gwaith hwn gael ei ohirio tan y flwyddyn nesaf, er bod yr awydd a'r gofyniad yn parhau. |

DRAFT

| Amcan Cydraddoldeb 1 | Camau Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Blwyddyn Adrodd ynghylch Cynnydd 2016-2017 |
|---|---|---|---|
| Ymgorffori cydraddoldeb yng nghynllun cyflawni blynyddol grwpiau llywio Ymgyrchoedd Diogelwch Tân wedi'u cysylltu â dyddiadau a digwyddiadau allweddol, a defnyddir digwyddiadau'n llawn er mwyn manteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu â'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. | Codi ymwybyddiaeth am ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 yng Ngrŵp Llywio Ymgyrchoedd, ac ystyried y gofyniad i gynnal gweithgareddau penodol i gefnogi unigolion neu grwpiau o ganlyniad i'w nodweddion gwarchodedig. | Uwch Reolwr Diogelwch Tân | **<u>Wedi'i gwblhau</u>** – Mae'r grŵp llywio ymgyrchoedd nawr yn ystyried yr holl gyfleoedd am gydraddoldeb a diwrnodau gweithredu, ac yn darparu adnoddau addas ar eu cyfer. |
| **Cyflogaeth a Chyflog** | | | |
| **Amcan Cydraddoldeb 2: Drwy ein harferion, rhaglenni a chynlluniau cyflogaeth ein hunain, cynyddu rhagolygon cyflogaeth pobl a allai ei chael hi'n anodd fel arall i gael mynediad at fyd gwaith**. | | | |
| **Amcan Cydraddoldeb 2** | **Camau Gweithredu** | **Swyddog Arweiniol** | **Blwyddyn Adrodd ynghylch Cynnydd 2016-2017** |
| Sicrhau bod tactegau yn y dyfodol, offer a chyfarpar amddiffyn personol yn cyd-fynd ag anghenion y Gwasanaeth ac yn talu sylw i'r nodweddion gwarchodedig.<br><br>Sicrhau bod cyfarpar yn fwy ymarferol yn ergonomaidd, yn pwyso llai heb amharu ar y gofynion technegol, a bod yr offer amddiffyn personol yn addas i'r pwrpas heb wahaniaethu. | Gwreiddio ethos gwelliant parhaus mewn offer gweithredol a chyfarpar amddiffyn personol o ran pob maes a allai gael effaith niweidiol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. | Uwch Reolwr Gweithrediadau | Mae'r gofyniad i adolygu cyfarpar yn unol ag ergonomeg gwell a lleihau pwysau heb beryglu'r defnydd ohono wedi'i gynnwys wrth werthuso cyfarpar newydd.<br><br>Bydd yr holl dactegau yn y dyfodol yn gyson â'r Rhaglen Cyfarwyddyd Gweithredol Cenedlaethol. |

DRAFT

| Amcan Cydraddoldeb 2 | Camau Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Blwyddyn Adrodd ynghylch Cynnydd 2016-2017 |
|---|---|---|---|
| Ymgysylltu â chyflenwyr sy'n adeiladu dyluniadau traddodiadol peiriannau tân i intregreiddio'n llwyr ac adeiladu yn ôl corffolaeth 5'2" a'u perswadio i beidio â defnyddio'r manicin 6' fel safon dylunio.<br><br>Rhaid i ddogfennau caffael newydd yn swyddogaethau Fflyd Cymru gyfan gael nod amrywiaeth mesuradwy wedi'i gynnwys er mwyn gallu mesur cyflenwyr a rheolwyr Fflyd. | Tendr caffael cerbydau newydd Cymru gyfan i wella'r adran "Dylunio ar gyfer gweithlu amrywiol" er mwyn dod yn agwedd fesuradwy ar y tendr.<br><br>Ymgysylltu â chyflenwyr, a sicrhau bod yr agwedd ddylunio'n cael ei phwysleisio i'r cyflenwyr a bod amcan gwirioneddol a mesuradwy yn cael ei gyflawni. Bydd cyflenwyr yn cael eu hannog ym maes cysyniadau dylunio dyfeisgar er mwyn cynorthwyo Cymru i sicrhau'r budd hwn.<br><br>Ymgysylltu â "Merched yn y Gwasanaeth Tân ac Achub" er mwyn deall yn llwyr beth yw'r heriau a'r anghenion mewn GTA modern. | Rheolwr y Fflyd | Mewn cyfarfodydd cenedlaethol ar gyfer y Fflyd, mae Rheolwr y Fflyd yn y Gwasanaeth yn parhau i ymgysylltu a gweithio gyda'r cyflenwyr i ymgorffori dyluniadau ar gyfer gweithlu amrywiol wrth lunio manylebau ar gyfer Cymru yn y dyfodol.<br><br>Parhau i ymgysylltu a lobïo'r cyflenwyr sy'n gweithio mewn marchnad draddodiadol ac arbenigol. Bydd hyn yn cymryd amser a lobïo parhaus er mwyn sicrhau newid.<br><br>Symud ymlaen y flwyddyn nesaf. |
| Ymgysylltu â sefydliadau addysgu i gynnal diwrnodau agored er mwyn dangos yr opsiynau gyrfa mewn peirianneg i ferched sy'n gadael ysgol. | Ystyried diwrnodau agored yn y Fflyd i ddangos y rhagolygon posibl a busnes i ymgeiswyr sy'n ferched. Cynnal y broses hon ochr yn ochr ag ymgysylltu â diffoddwragedd tân/gweithredu cadarnhaol.<br><br>Annog sefydliadau addysgu i gael nodau cydraddoldeb wedi'u cynnwys yn eu hamcanion mewn perthynas â swyddi traddodiadol. | Rheolwr y Fflyd | Bu Adran y Fflyd yn llwyddiannus wrth ddenu ymgeiswyr benywaidd i swydd prentis technegydd cerbydau.<br><br>Gwneir y gwaith hwn mewn partneriaeth â chydweithrediad coleg addysg bellach lleol. Mae'r adran yn gobeithio symud ymlaen gyda hyn yn y flwyddyn academaidd i ddod. |

DRAFT

| Amcan Cydraddoldeb 2 | Camau Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Blwyddyn Adrodd ynghylch Cynnydd 2016-2017 |
|---|---|---|---|
| Drwy arferion cyflogaeth, rhaglenni a chynlluniau GTAGC, cynyddu'r rhagolygon cyflogaeth i bobl a allai fel arall ei chael yn anodd cael mynediad cyfartal at waith. | Targedu recriwtiaid benywaidd posibl drwy nifer o fentrau ychwanegol, gan gynnwys cysylltu â chlybiau chwaraeon, e.e. Cymdeithas Pêl-droed Merched, timau rhedeg, hoci a phêl-rwyd.<br><br>Ymgynghorwyr Ffitrwydd i ymweld â champfeydd a chanolfannau hamdden ar adegau brig, yn ogystal â mynychu digwyddiadau chwaraeon i ferched, e.e. Ras dros Fywyd. | Rheolwr AD<br><br>Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu<br><br>Ymgynghorydd Cydraddoldeb | Staff AD yn mynychu digwyddiadau rhwydwaith PRISM a LHDT, yn ogystal â GTAGC yn ymddangos at wefan 'Ewch Amdani' sy'n arbennig ar gyfer merched ifanc sy'n byw yng Nghymru. Y bwriad yw codi proffil diffoddwyr tân gan ei fod yn rhoi sylwi i yrfa diffoddwrwaig tân ar y System Dyletswydd Amser Cyflawn.<br><br>Cynhaliwyd digwyddiadau gweithredu cadarnhaol cyn pob un o'r tri chyfnod recriwtio a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn ystod yr ymgyrch, cynigiwyd y diwrnodau mewn gwahanol leoliadau ledled Gogledd Cymru i godi ymwybyddiaeth a chynyddu nifer y ceisiadau gan grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.<br><br>Aeth Ymgynghorwyr Ffitrwydd Corfforol i gampfeydd ledled Gogledd Cymru i siarad â recriwtiaid posibl er mwyn eu gwneud yn ymwybodol o'r ymgyrchoedd ar gyfer prentisiaid a diffoddwyr tân i'r System RDS.<br><br>Fe wnaethom ni godi ymwybyddiaeth ymysg y gymuned LHDT drwy hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn cael ei targedu'n benodol.<br><br>Cynhaliwyd ôl-drafodaeth ar ôl pob digwyddiad, a thrafodwyd hyn yn y cyfarfodydd Adnoddau Gweithredol. Yn dilyn hyn, cafodd pob cyfnod ei addasu er mwyn sicrhau y byddai ymgeiswyr a fyddai'n dod i'r diwrnodau Gweithredu Cadarnhaol yn cael y mwyaf o'r digwyddiadau drwy werthuso'r unigolion a ddaeth. Aeth y rhan fwyaf o'r mynychwyr yn eu blaenau i wneud cais am swydd. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | <u>Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol</u><br><br>Adolygu diwrnodau Gweithredu Cadarnhaol, a chyfrannu at lunio Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol. Cynnwys arferion da ac ymgorffori'r offer a'r prosesau i gynnal digwyddiadau gweithredu cadarnhaol yn effeithiol mewn un polisi gyda deunyddiau ategol. | | Hefyd, cynigiwyd cyngor ac arweiniad i'r unigolion a oedd yn methu â chyrraedd y safonau angenrheidiol ar gyfer cryfder cyhyrau (codi ysgol).<br><br>Bu'r adborth a gafwyd o'r digwyddiadau hyn yn gadarnhaol.<br><br><u>Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol</u><br><br>Bydd y gwaith a wnaed yn ystod y tri chyfnod recriwtio yn gymorth i siapio edrychiad y Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol a gwerthuso'r gwaith sydd angen ei wneud pob agwedd ar y Gwasanaeth yn ddeniadol.<br><br>Bydd monitro a dadansoddi'r data recriwtio yn ffocws i waith yn y dyfodol. |
| Hyrwyddo polisïau i gynorthwyo ac annog cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ymysg gweithwyr GTAGC. | Creu cynllun Mamolaeth/Tadolaeth gwell, sy'n ymgorffori'r ddeddfwriaeth ddiweddar er mwyn hybu mwy o ymwybyddiaeth, a chydraddoldeb.<br><br>Ymchwilio i gyfarwyddyd i weithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu.<br><br>Creu arweiniad ar fynd i'r afael â materion Iechyd Meddwl yn y gwaith i weithwyr a Rheolwyr Llinell (sef defnyddio Ymwybyddiaeth Ofalgar) | Rheolwr AD | Drafftiwyd polisi Mamolaeth, Tadolaeth a Mabwysiadu i ymgorffori'r ddeddfwriaeth ddiweddar. Yn dilyn cymeradwyaeth y Grŵp Gweithredol, aeth y polisi drwy gyfnod ymgynghori ac mae wedi'i osod ar y fewnrwyd.<br><br>Mae GTAGC wedi rhoi ei enwi i Mind, Cyflogwr Ystyriol ac Amser am Newid (Time for Change). Rydym wrthi'n aros am gadarnhad o gyllid ar gyfer cyflwyno Hyrwyddwyr Goleuadau Glas.<br><br>Wedi adolygu a diweddaru'r cynllun ôl-drafod digwyddiadau critigol ar lefel Cymru gyfan. Rydym wedi cyflwyno gwasanaeth cwnsela 24/7 ar y ffôn drwy'r Rhaglenni Cymorth i Withwyr. Yr wybodaeth am y gwasanaethau uchod i gael ei raeadru i lawr i bob rheolwr llinell a gweithiwr (a'i hychwanegu at fodiwl Learnpro). |

DRAFT

| Amcan Cydraddoldeb 2 | Camau Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Blwyddyn Adrodd ynghylch Cynnydd 2016-2017 |
|---|---|---|---|
| Canfod a mynd i'r afael â thangynrychiolaeth o fewn yr adran gyllid, ac asesu beth yw effaith ailstrwythuro'r adran ar gydraddoldeb a sicrhau parhad busnes, a chynllunio ar gyfer olyniaeth. | Ailstrwythuro'r adran, adolygu swyddi a dyletswyddau, cysoni tasgau â swyddi ar gyfer parhad busnes.<br><br>Cynnal ymarferion cynllunio ar gyfer olyniaeth; amlinellu adran rithiol i droi ati ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau bod gan yr adran gyfuniad o staff i hwyluso gweithio'n hyblyg. | Pennaeth Cyllid | **Ailstrwythuriad wedi'i gwblhau** – angen swyddi er mwyn sicrhau parhad busnes; mae cyfrifoldebau'r adran yn cael eu hailddosbarthu rhwng y staff presennol ar hyn o bryd. |
| Gweithio tuag at gyflwyniad i Fynegai Stonewall | Meincnodi GTAGC yn erbyn Mynegai Stonewall.<br><br>Bydd y Rheolwr AD a'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn datbygu cynllun gweithredu i edrych yn fanylach ar y gofynion y byddai angen i GTAGC eu cyflawni er mwyn galluogi'r Gwasanaeth i baratoi cyflwyniad i Fynegai Stonewall.<br><br>Ystyried unrhyw oblygiadau cyllidebol. | Ymgynghorydd Cydraddoldeb | Bydd Rheolwr AD a'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn gweithio i feincnodi GTAGC yn erbyn Mynegai Gweithleoedd Stonewall 2017. Y bwriad yw defnyddio'r fynegai ac ymestyn yr ymarfer meincnodi i'r holl nodweddion gwarchodedig.<br><br>Cynhaliodd GTAGC a Bwrdd Iechyd Prifysgl Betsi Cadwaladr ddigwyddiad ar y cyd i drefnu Rhaglen Cynghreiriaid Stonewall yn Awst 2016. Dyma'r digwyddiad cyntaf o'i fath yng Ngogledd Cymru.<br><br>Aeth un o Gymheiriaid newydd Stonewall i Gynhadledd Stonewall yng Nghaerdydd yn Chwefror 2017. |
| Creu Llawlyfr Cydraddoldeb/Amrywiaeth ar gyfer y Gwasanaeth | Creu Llawlyfr Cymunedol<br><br>Cynnal ymchwil mewn GTAau ac Awdurdodau Lleol eraill i ganfod fformatau a chynnwys perthnasol ar gyfer Llawlyfr Cydraddoldeb i'r Gwasanaeth. | Ymgynghorydd Cydraddoldeb | **Wedi'i gwblhau** – Mae'r Llawlyfr Cymunedol wedi cael ei gwblhau, a chafodd ei gyflwyno fel rhan o'r Wobr Iechyd Corfforaethol. Mae'r ddogfen wedi cael ei gosod fel adnodd cyfeiriol ar gyfer y staff ar y fewnrwyd.<br><br>Mae Llawlyfr Cydraddoldeb y Staff ar ffurf drafft ar hyn o bryd, a bydd yn barod y flwyddyn nesaf. |

DRAFT

| Addysg a Sgiliau | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb 3: Drwy raglen gynhwysfawr o addysg wedi'i deilwra a chyngor yn cael ei ddarparu'n unigol ac mewn cydweithrediad, grymuso pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru i barhau i leihau eu lefel eu hunain o risg o dân a pheryglon eraill drwy gydol y camau gwahanol o'u bywydau.** | | | |
| **Amcan Cydraddoldeb 3** | **Camau Gweithredu** | **Swyddog Arweiniol** | **Blwyddyn Adrodd ynghylch Cynnydd 2016-2017** |
| Creu strategaeth a chynllun gweithredu | Mae GTAGC wedi ymrwymo'n gyhoeddus i hybu cyfle cyfartal a thrin pobl yn deg. Nod y strategaeth yw codi ymwybyddiaeth ymysg pob gweithiwr am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r adran Hyfforddi a Datblygu yn cydlynu ac yn darparu cyfarwyddyd ar gyfer hyfforddi a datblygu ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu | Mae'r Strategaeth wrthi'n cael ei hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn gyson â strategaethau ac arweiniad cenedlaethol a'i bod yn gallu datblygu gweithlu cymwys sy'n gallu ymateb i newid yn y sefydliad. Mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wrthi'n cydweithio i lunio Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad, a fydd yn recriwtio ac yn datblygu gweithlu sy'n croesawu ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.<br><br>Cafodd Grŵp Gwasanaeth Tân Cynhwysol ei ffurfio gan Gyd-gyngor Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol i ystyried materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a materion diwylliannol. Mae'r adroddiad dilynol yn cynnig strategaethau gwella ac yn ceiso cymorth cyflogwyr a gweithwyr i'w hybu er mwyn sicrhau gwelliant ar lefel leol.<br><br>Bydd y Grŵp Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn arwain y strategaethau gwella a nodwyd. Mae'r Strategaeth Hyfforddi a Datblygu Cydraddoldeb eisoes yn gyson â nifer o feysydd y tynnwyd sylw atynt o fewn yr Adroddiad Cynhwysiant o ran hybu diwylliant cynhwysol, gweithgareddau recriwtio, gofynion hyfforddiant corfforaethol, brosesau dyrchafu a mentrau cadw staff. Bydd argymhellion a chamau gweithredu'r Grŵp Iechyd, Diogelwch a Llesiant, a'r meysydd allweddol a nodwyd yn y Strategaeth Datblygu Sefydliadol GTAau Cymru gyfan yn rhan annatod o'r adolygiad o'r strategaeth. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno hyfforddiant yn ymwneud â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015 | Codi ymwybyddiaeth am gam-drin domestig, a rhoi hyfforddiant i'r staff i'w gwneud yn ymwybodol o'r hyn i edrych amdano, a chael yr hyder i adrodd yn ei gylch. Cyflwyniad, hyfforddiant Lefel 1 yn symud ymlaen i Lefel 2 | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu | Mae'r modiwl e-ddysgu ar gael i holl aelodau GTAGC drwy Learn Pro, ac mae 36% o'r staff wedi cwblhau'r modiwl.<br><br>Mae arweiniad hefyd ar gael i Reolwyr Llinell i'w cynorthwyo i gefnogi'r staff. |
| **Diogelwch Personol** | | | |
| **Amcan Cydraddoldeb 4: Lleihau'r risg o farwolaeth neu anaf oherwydd tanau yng Ngogledd Cymru drwy ddarparu gwasanaethau atal ac amddiffyn effeithiol ac ymateb tân ac achub mewn argyfwng.** | | | |
| **Amcan Gweithredol 4** | **Camau Gweithredol** | **Swyddog Arweiniol** | **Blwyddyn Adrodd ynghylch Cynnydd 2016-2017** |
| Sicrhau bod staff rheng flaen yn ymwybodol o faterion fel troseddau casineb a thrais dometig ac aflonyddu, a bod ganddynt yr hyder i ddefnyddio prosesau i adrodd yn eu cylch. | Defnyddio'r cyfle sydd mewn archwiliadau i godi ymwybyddiaeth ymysg staff rheng flaen | Uwch Reolwr Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth | Bellach wedi'i ymgorffori yn y ffurflenni awdit gweithle. Codwyd ymwybyddiaeth/lefel yr wybodaeth fel rhan o'r rhaglen awditiau. |
| Lleihau'r risg o anaf a marwolaeth oherwydd tân drwy reoli gwybodaeth am leoliadau yn well a'i gwneud yn fwy cyflawn. | Cyflwyno rhestr gorfforaethol wedi'i rheoli ar gyfer y gwasanaeth a sicrhau bod y System Gorchymyn a Rheoli yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfeiriadau | Rheolwr yr Ystafell Reoli | Mae'r rhestr ddaeardyddol gorfforaethol yn rhywbeth i'w gyflawni gan yr adran TGCh, a'r gobaith oedd ei gydblethu wrth i'r system gorchymyn a rheoli newydd ddod yn 'fyw' ym mis Mawrth. Mae'r dasg hon yn weddill, a dylai fod ar gael yn ystod 2017. |
| Lleihau'r risg o anaf a marwolaeth oherwydd tân drwy gydweithio'n well rhwng partneriaid y Gwasanaethau Brys. | Rhannu llwyfannau technoleg gwybodaeth cyffredin i gyfnewid gwybodaeth yn fwy amserol er mwyn gallu rheoli anoddau'n well a darparu ymateb mwy effeithiol i gymunedau Gogledd Cymru.<br><br>GTAGC i symud i rannu ICCS Frequentis Heddlu Gogledd Cymru. | Rheolwr yr Ystafell Reoli | Mae'r rhestr ddaearyddol gorfforaethol yn rhywbeth i'w gyflawni gan yr adran TGCh, a'r gobaith oedd ei gydblethu wrth i'r system gorchymyn a rheoli newydd ddod yn 'fyw' ym mis Mawrth.<br><br>Mae'r dasg hon yn weddill, a dylai fod ar gael yn ystod 2017. |

DRAFT

| Amcan Cydraddoldeb 4 | Camau Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Blwyddyn Adrodd ynghylch Cynnydd 2016-2017 |
|---|---|---|---|
| Lleihau'r risg o anaf a marwolaeth oherwydd tân drwy gyflwyn systemau i helaethu a gwella argaeledd Gwybodaeth am Risg ar adeg yr alwad. | Cyflwyno'r System Gorchymyn a Rheoli newydd sy'n gysylltiedig drwy'r RMS Tân a'r rhestr ddaearyddol newydd a ddefnyddir fel ffynhonnell i storio gwybodaeth am risgiau. | Rheolwr yr Ystafell Reoli | Aeth y System Gorchymyn a Rheoli newydd yn fyw ar 21 Mawrth, ac RMS Tân yw'r rhyngwyneb. |
| Datblygu dull mwy targedol a chyson i gasglu a dehongli data risg yng nghyd-destyn nodweddion gwarchodedig, er mwyn deall yn llwyr a oes unrhyw grwpiau penodol mewn mwy o berygl o dân na'r llall. | Gweithredu argymhellion y cynllun treialu data Cydraddoldeb Gweithredol. Dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd dros pob cyfnod o 12 mis a'i defnyddio i gefnogi unrhyw strategaethau ataliol yn y dyfodol pan fo angen. | Uwch Reolwr Gweithrediadau | Cafodd y cynllun treialu ei gyfyngu'n wreiddiol i ardaloedd penodol, a defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i gasglu'r data. Yn dilyn cwblhau'r cynllu treialu, cafodd y canlyniadau eu gwerthuso a chafodd adolygiad o bob dull casglu ei asesu er mwyn sefydlu pa ddull casglu oedd fwyaf addas i'r gwasanaeth a'r cyhoedd.<br><br>Gallai casglu ac adolygu a dadansoddi'r data hwn eu defnyddio i oleuo strategaeth ataliol yn y dyfodol. |

**Cynrychiolaeth a Llais**

**Amcan Cydraddoldeb 5: Drwy fod yn agored ac atebol am yr hyn a wnawn a beth yw ein cynlluniau, annog mwy o bobl i ymwneud â'r broses o benderfynu ar y ffordd y mae gwasanaethau tân ac achub yn cael eu darparu yng Ngogledd Cymru, a cheisio cynyddu'r amrywiaeth o leisiau cynrychioladol sy'n cyfrannu at y broses honno.**

| Amcan Cydraddoldeb 5 | Camau Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Blwyddyn Adrodd ynghylch Cynnydd 2016-2017 |
|---|---|---|---|
| Mae dulliau ymgynghori ac ymgysylltu'n cael eu gwella drwy gryfhau cysylltiadau rhwng y Sector Cyhoeddus a grwpiau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli pobl o bob grŵp gwarchodedig. | Datblygu cynlluniau ar gyfer Ymgysylltu, sicrhau bod hyn yn cynnwys "grwpiau na chlywir yn aml" ac adeiladu'r gynrychiolaeth wirioneddol er mwyn targedu'r rhai sy'n dal heb gael eu cynnwys. | Ymgynghorydd Cydraddoldeb<br><br>Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol | Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith wedi cael ei wneud gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru. Mae gan y grŵp fynediad ar grwpiau cymysg sy'n cynrychioli pob un o'r nodweddion gwarchodedig.<br><br>Roedd yr ymgynghoriad ar amcanion strategol y Gwasanaeth ar gyfer 2017-18 a gafodd ei gynnal yn hydref 2016 yn cynnwys:<br>• Ymgysylltu'n uniongyrchol drwy e-bost: Cafodd gwahoddiadau am ymateion, gyda dogfennau esboniadol cysylltiol, eu hanfon ar e-bost at restr o gysylltiadau a ffurfwyr barn, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gan gynnwys grwpiau cynrychioliadol lleol<br><br>• Ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol: Rhyddhawyd negeseuon ar Twitter – gan ddilyn grwpiau cynrychioliadol hybys er mwyn eu hannog nhw i'n dilyn ninnau<br><br>• Dosbarthu taflenni : Rhoddwyd taflenni gan y rhai sy'n cynnal archwiliadau diogelwch yn y cartref a staff RDS yn eu cymunedau lleol<br><br>Cydweithio â phartneriaid: gofynnwyd i bartneriaid lleol rannu ac aildrydar ein negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, ac yn arbennig fe wnaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, sy'n cynnal ymgynghoriadau llesiant, dynnu sylw hefyd at eu hymgynghoriadau nhw gan sicrhau bod negeseuon yn cael eu rhannu mor eang â phosibl. Yn Ynys Môn, roedd hyn yn cynnwys rhannu ein hymgynghoriad â grwpiau nodweddion gwarchodedig sydd eisoes yn gysylltiedig ag ymgynghoriadau eraill. |
| **Mynediad at Wasanaethau, Gwybodaeth ac Adeiladau** | | | |
| **Amcan Cydraddoldeb 6: Gwella mynediad at wybodaeth a chyfathrebiadau gyda'r Gwasanaeth, a gwella mynediad corfforaethol at adeiladau'r gwasanaeth tân ac achub.** | | | |
| **Amcan Cydraddoldeb** | **Camau Gweithredu** | **Swyddog Arweiniol** | **Blwyddyn Adrodd ynghylch Cynnydd 2016-2017** |
| Sicrhau bod dulliau priodol o gyfathrebu yn cael eu mabwysiadu wrth hyrwyddo'r negeseuon diogelwch â blaenoriaeth a nodwyd gan yr adran Diogelwch Tân | Sicrhau bod hyn yn cael ei gysylltu ag Amcan Cyfathrebu Corfforaethol o ran cefnogi'r amcanion a datblygu cysylltiadau gweithio agos â'r Adran Diogelwch Tân a'r Adran Lleihau Llosgi Bwriadol | Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol<br><br>Uwch Reolwr Diogelwch Tân | Mae ymgyrchoedd diogelwch cymunedol yn cael eu cydlynu drwy'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd – caiff y rhain eu trefnu, a rhoddir adnoddau priodol iddynt ymlaen llaw, ar gyfer y flwyddyn i ddod, gydag amcanion clir a'u gwerthuso wedyn. Mae dulliau priodol o gyfathrebu'n cael eu hystyried fel rhan o'r strategaethau a fabwysiadir, e.e. cafodd y fideo Profa dy Larwm ei gomisiynu a'i gynhyrchu gan gadw'r nodweddion gwarchodedig mewn cof. |

DRAFT

| Amcan Cydraddoldeb | Camau Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Blwyddyn Adrodd ynghylch Cynnydd 2016-2017 |
|---|---|---|---|
| Mabwysiadu Strategaeth Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd | Rhoi ystyriaeth i amlieithedd, hygyrchedd, cydweithio â fforymau a grwpiau cynrychioladol sefydledig ac ati. | Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol | Roedd yr ymgynghoriad ar yr amcanion strategol ar gyfer 2017-18 a gafodd ei gynnal yn Hydref 2016 yn cynnwys;<br>• Ymgysylltu'n uniongyrchol drwy e-bost: Cafodd gwahoddiadau am ymateion, gyda dogfennau esboniadol cysylltiol, eu hanfon ar e-bost at restr o gysylltiadau a ffurfwyr barn, gan gynnwys grwpiau cynrychioliadol lleol<br>• Ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol: rhyddhawyd negesuon Twitter – gan ddilyn grwpiau cynrychioliadol hysbys ar ein cyfrif ni er mwyn eu hannog nhw i'n dilyn ninnau<br>• Dosbarthu taflenni : Rhoddwyd taflenni gan y rhai sy'n cynnal archwiliadau diogelwch yn y cartref a staff RDS yn eu cymunedau lleol<br><br>Cydweithio â phartneriaid: gofynnwyd i bartneriaid lleol rannu ac aildrydar ein negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, ac yn arbennig fe wnaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, sy'n cynnal ymgynghoriadau llesiant, dynnu sylw hefyd at eu hymgynghoriadau nhw gan sicrhau bod negeseuon yn cael eu rhannu mor eang â phosibl. Yn Ynys Môn, roedd hyn yn cynnwys rhannu ein hymgynghoriad â grwpiau nodweddion gwarchodedig sydd eisoes yn gysylltiedig ag ymgynghoriadau eraill. |
| Gwella mynediad at wybodaeth a chyfathrebiadau, a gwella'r profiad i'r cwsmer. | Asesu/gwirio'r Strategaethau Cyfathrebu Corfforaethol am arweiniad penodol am ddiwyg gwahanol a phrotocolau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd. Adolygu, defnyddio ac adrodd ynghylch allbynnau o'r gwaith ymchwilio (cwynion ac ati) er mwyn goleuo gwelliannau posibl | Uwch Reolwr Safonau Gwasanaeth Proffesiynol | Sicrhau bod dogfennau awdit y gweithle yn cynnwys bod yn barod ar gyfer y Gymraeg er mwyn codi ymwybyddiaeth a lefel gwybodaeth, a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.<br><br>Fe wnaeth cwyn am y Gymraeg arwain at adolygiad a gwelliant pellach i'n gweithdrefn diogelwch yn y cartref. |

| Amcan Cydraddoldeb | Camau Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Blwyddyn Adrodd ynghylch Cynnydd 2016-2017 |
|---|---|---|---|
| Gwella'r gofyniad am amcanion cydraddoldeb ar gyfer adnewyddu tendr cyflenwadau garej. | Bydd GTAGC yn ysgrifennu amcan cydraddoldeb yn y tendr newydd ar gyfer Cymru gyda sgoriau mesuradwy. | Rheolwr y Fflyd | **Wedi'i gwblhau** – Ychwanegwyd yr amcan hwn at y tendr, ac mae'r tendr wedi cael ei ddyfarnu erbyn hyn. |
| Gwella mynediad at adeiladau i ymwelwyr â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd | Gwella mynediad i bobl anabl sy'n ymweld â'r Ganofan Gyfathrebu ar y Cyd, gyda gwell pwyntiau mynediad â ffob, cyfeiriad agor a chau drysau, a thoiledau anabl ar gael (llawr gwaelod). | Rheolwr yr Ystafell Reoli<br><br>Rheolwr Ystadau | Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn datgan bod rhaid gwneud 'addasiadau rhesymol' pan fo angen.<br><br>Edrychir rhagor ar unrhyw ofynion penodol i'r Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd er mwyn cwrdd ag unrhyw anableddau penodol. Hyd yma, ni chafwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod 2016-17.<br><br>Mae'r toiled hygyrch yn cydymffurfio â Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu. |
| Diweddaru'r Arweiniad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i Gontractwyr a'i roi yn ffurfiol i holl gontractwyr cyfleusterau.<br><br>Sicrhau bod pob contractwr sy'n cael ei hurio gan y Gwasanaeth i weithio ar safleoedd GTAGC yn ymwybodol o Gynllun Cydraddoldeb Strategol GTAGC a'r Polisi Cydraddoldeb. | Diweddaru ac ymgynghori'n fewnol ynglŷn â dogfen arweiniad.<br><br>Rhoi copïau o Bolisi Cydraddoldeb GTAGC i bob contractwr Cyfleusterau, a monitro cydymffurfiaeth y contractwyr. | Rheolwr Ystadau | Rhoddir Dogfen Gyfarwyddyd i bob contractwr ar y 'Contract Gwaith Cynnal a Chadw Adeiladau a Thrydanol'. |

DRAFT

# ADRAN 7

## CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL – DATA CYFLOGAETH/DIGWYDDIAD

| Cyfanswm Nifer y Staff yn eu Swydd - Ebrill 2016 i Fawrth 2017<br>Nodwedd Warchodedig | | Staff yr Yst. Reoli | Staff Gweithredol | Staff y GTA |
|---|---|---|---|---|
| Oedran | 16-24 | 1 | 25 | 7 |
| | 25-34 | 8 | 167 | 24 |
| | 35-49 | 16 | 340 | 55 |
| | 50-54 | 6 | 100 | 21 |
| | 55-59 | 3 | 27 | 24 |
| | 60 a throsodd | 0 | 8 | 24 |
| Nam Anabledd (hunan-ardystiad) wedi ei ardystio gan Swyddog Iechyd Galwedigaethol | Anabledd Dysgu | 0 | 8 | 3 |
| | Amhariad Meddyliol | 0 | 5 | 1 |
| | Salwch neu Gyflwr Iechyd Hirdymor | 4 | 2 | 2 |
| | Anffurfiad arall | 0 | 0 | 0 |
| | Nam Corfforol | 0 | 0 | 0 |
| | Nam ar y Synhwyrau | 0 | 3 | 1 |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | Partneriaeth Sifil (o'r un rhyw) | 0 | 10 | 2 |
| | Byw gyda Chymar | 6 | 102 | 14 |
| | Wedi ysgaru | 1 | 33 | 12 |
| | Wedi priodi | 16 | 326 | 84 |
| | Sengl | 10 | 172 | 38 |
| | Wedi gwahanu | 0 | 17 | 2 |
| | Gweddw | 0 | 1 | 1 |
| | Heb ddweud | 1 | 6 | 2 |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Beichiog yn y flwyddyn ddiwethaf | 0 | 2 | 5 |
| | Mamolaeth yn y flwyddyn ddiwethaf | 0 | 4 | 6 |
| Hil | Asiaidd/Asiaidd Prydeinig *Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd* | 0 | 2 | 0 |
| | Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 1 | 0 |
| | Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | 2 | 1 |
| | Gwyn *Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig* | 33 | 656 | 152 |
| | Gwyn Arall | 1 | 4 | 2 |
| | Heb ddweud | 0 | 2 | 0 |
| Crefydd a Chred | Bwdhaidd | 0 | 3 | 1 |
| | Cristion (Pob Enwad) | 19 | 321 | 87 |
| | Hindŵaidd | 0 | 0 | 0 |
| | Iddewig | 0 | 0 | 0 |
| | Mwslimaidd | 0 | 1 | 0 |
| | Sikh | 0 | 0 | 0 |
| | Unrhyw grefydd arall | 0 | 9 | 3 |
| | Dim crefydd | 9 | 244 | 39 |
| | Heb ddweud | 6 | 89 | 25 |
| Rhyw | Benyw | 29 | 36 | 89 |
| | Gwryw | 5 | 631 | 66 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Deurywiol | 0 | 1 | 0 |
| | Hoyw neu Lesbiaidd | 1 | 4 | 2 |
| | Heterorywiol | 29 | 619 | 146 |
| | Arall | 0 | 0 | 0 |
| | Ddim am ddweud/Heb ddweud | 4 | 43 | 7 |
| Trawsrywiol | Benyw | 0 | 0 | 0 |
| | Rhyngrywiol | 0 | 0 | 0 |
| | Gwryw | 0 | 0 | 0 |
| | Ddim am ddweud | 0 | 0 | 0 |

DRAFT

| Cyfanswm y Ceisiadau gan Staff am Gyflogaeth - Ebrill 2016 i Fawrth 2017 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Nodwedd Warchodedig** | | **Staff yr Yst. Reoli** | **Staff Gweithredol** | **Staff y GTA** |
| Oedran | 16-24 | **1** | | **49** |
| | 25-34 | **4** | Heb adrodd | **50** |
| | 35-49 | 0 | | **40** |
| | 50-54 | 0 | | **18** |
| | 55-59 | 0 | | **4** |
| | 60 a throsodd | 0 | | **1** |
| | Heb ddweud | 0 | | **4** |
| | | | | |
| Nam Anabledd (hunan-ardystiad) wedi ei ardystio gan Swyddog Iechyd Galwedigaethol | Anabledd Dysgu | 0 | **1** | **4** |
| | Amhariad Meddyliol | 0 | 0 | 0 |
| | Salwch neu Gyflwr Iechyd Hirdymor | 0 | **7** | **4** |
| | Anffurfiad Arall | 0 | 0 | 0 |
| | Nam Corfforol | 0 | 0 | **2** |
| | Nam ar y Synhwyrau | 0 | 0 | **1** |
| | | | | |
| Hil | Asiaidd/Asiaidd Prydeinig *Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd* | 0 | **2** | 0 |
| | Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | **1** | **2** |
| | Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | **13** | 0 |
| | Gwyn *Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig* | **6** | **474** | **158** |
| | Gwyn Arall | 0 | 0 | 2 |
| | Heb ddweud | 0 | **33** | **4** |
| | | | | |
| Crefydd a Chred | Bwdhaidd | 0 | **2** | 0 |
| | Cristion (Pob Enwad) | **3** | **182** | **72** |
| | Hindŵaidd | 0 | 0 | 0 |
| | Iddewig | 0 | 0 | 0 |
| | Mwslimaidd | 0 | **5** | 0 |
| | Sikh | 0 | 0 | 0 |
| | Unrhyw grefydd arall | 0 | **6** | **1** |
| | Dim crefydd/Heb ddweud | **3** | **328** | **93** |
| | | | | |
| Rhyw | Benyw | **1** | **62** | **90** |
| | Gwryw | **5** | **461** | **76** |
| | | | | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Deurywiol | 0 | **2** | **1** |
| | Hoyw neu Lesbiaidd | 0 | **7** | **4** |
| | Heterorywiol | **5** | **482** | **137** |
| | Arall | **1** | **32** | **24** |
| | Ddim am ddweud / Heb ddweud | 0 | 0 | 0 |
| | | | | |
| Trawsrywiol | Benyw | 0 | 0 | 0 |
| | Rhyngrywiol | 0 | 0 | 0 |
| | Gwryw | 0 | 0 | 0 |
| | Ddim am ddweud | 0 | 0 | 0 |

DRAFT

| Cyfanswm Nifer y Ceisiadau Llwyddiannus i'r Gwasanaeth 2016-2017 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Nodwedd Warchodedig** | | **Staff yr Yst. Reoli** | **Staff Gweithredol** | **Staff y GTA** |
| Oedran | 16-24 | 0 | **13** | **7** |
| | 25-34 | **2** | **43** | **3** |
| | 35-49 | 0 | **22** | **8** |
| | 50-54 | 0 | **2** | **3** |
| | 55-59 | 0 | **1** | 0 |
| | 60 a throsodd | 0 | 0 | 0 |
| | | | | |
| Nam Anabledd (hunan-ardystiad) wedi ei ardystio gan Swyddog Iechyd Galwedigaethol | Anabledd Dysgu | 0 | 0 | 0 |
| | Amhariad Meddyliol | 0 | 0 | 0 |
| | Salwch neu Gyflwr Iechyd Hirdymor* | 0 | 0 | 0 |
| | Anffurfiad Arall | 0 | 0 | **2** |
| | Nam Corfforol | 0 | 0 | 0 |
| | Nam ar y Synhwyrau | 0 | 0 | 0 |
| | | | | |
| Hil | Asiaidd/Asiaidd Prydeinig *Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd* | 0 | **2** | 0 |
| | Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | **1** | **1** |
| | Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | 0 | 0 |
| | Gwyn *Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig* | **2** | **78** | **20** |
| | Gwyn Arall | 0 | 0 | 0 |
| | Heb ddweud | 0 | 0 | 0 |
| | | | | |
| Crefydd a Chred | Bwdhaidd | 0 | **1** | 0 |
| | Cristion (Pob Enwad) | **2** | **29** | **10** |
| | Hindŵaidd | 0 | 0 | 0 |
| | Iddewig | 0 | 0 | 0 |
| | Mwslimaidd | 0 | 0 | 0 |
| | Sikh | 0 | 0 | 0 |
| | Unrhyw grefydd arall | 0 | 0 | 0 |
| | Dim crefydd | 0 | **51** | **11** |
| | Heb ddweud | 0 | 0 | 0 |
| | | | | |
| Rhyw | Benyw | **1** | **1** | **11** |
| | Gwryw | **1** | **80** | **10** |
| | | | | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Deurywiol | 0 | 0 | 0 |
| | Hoyw neu Lesbiaidd | 0 | **1** | 0 |
| | Heterorywiol | **1** | **78** | **21** |
| | Arall | 0 | 0 | 0 |
| | Ddim am ddweud/Heb ddweud | **1** | **2** | 0 |
| | | | | |
| Trawsrywiol | Benyw | 0 | 0 | 0 |
| | Rhyngrywiol | 0 | 0 | 0 |
| | Gwryw | 0 | 0 | 0 |
| | Ddim am ddweud | 0 | 0 | 0 |

DRAFT

DRAFT

| **Y 5% sy'n ennill fwyaf - Ebrill 2016 i Fawrth 2017** | | |
|---|---|---|
| **Yr holl Staff** | Dynion | Merched |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 |
| Grwpiau Ethnig Lluosog/cymysg | 0 | 0 |
| Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig | 19 | 3 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| Cyfanswm BME | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 19 | 3 |

| **Yr Holl Staff a fu'n ymwneud â Gweithdrefnau Cwynion - Ebrill 2016 i Fawrth 2017** ***(Staff a wnaeth Gŵyn)*** | | |
|---|---|---|
| **Yr holl Staff** | Dynion | Merched |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd) | 0 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 |
| Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | 0 |
| Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig | 0 | 0 |
| | 0 | 0 |
| Cyfanswm BME | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 0 | 0 |

| **Yr Holl Staff a fu'n ymwneud â Gweithdrefnau Disgyblu - Ebrill 2016 i Fawrth 2017** ***(Staff yr ymchwiliwyd iddynt ac a aeth ymlaen i Wrandawiad Disgyblu)*** | | |
|---|---|---|
| **Yr holl staff** | Dynion | Merched |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 1* | 0 |
| Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 1* | 0 |
| Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig | 15 | 2 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| Cyfanswm BME | 0 | 0 |
| **dyma un person wnaeth nodi dau hil* Cyfanswm | 16 | 2 |

| **Nifer yr Ymadawyr - Ebrill 2016 i Fawrth 2017** | | |
|---|---|---|
| **Nifer y Staff Gweithredol sy'n gadael y Gwasanaeth** | Dynion | Merched |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 |
| Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | 0 |
| Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig | 2 | 0 |
| Gwyn Arall | 62 | 3 |
| Cyfanswm BME | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 64 | 3 |

| **Nifer yr Ymadawyr - Ebrill 2016 i Fawrth 2017** | | |
|---|---|---|
| **Nifer Staff yr Ystafell Reoli sy'n gadael y Gwasanaeth** | Dynion | Merched |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 |
| Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | 0 |
| Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig | 0 | 0 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| Cyfanswm BME | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 0 | 0 |

| Nifer yr Ymadawyr - Ebrill 2016 i Fawrth 2017 | | |
|---|---|---|
| **Nifer Staff y GTA sy'n gadael y Gwasanaeth** | Dynion | Merched |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 |
| Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | 0 |
| Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig | 8 | 7 |
| Gwyn Arall | 0 | 1 |
| Cyfanswm BME | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 8 | 8 |

**Sgiliau Siarad Cymraeg y Staff 2016**

| Staff wedi'u lleoli yn | Cyfanswm swyddi | Deiliad y Swydd ar Lefel 0 | Deiliad y Swydd ar Lefel 1 | Deiliad y Swydd ar Lefel 2 | Deiliad y Swydd ar Lefel 3 | Deiliad y Swydd ar Lefel 4 | Deiliad y Swydd ar Lefel 5 | Deiliad y Swydd ar Lefel 6 | Dim asesiad na hunan-asesiad wedi'i wneud | Cyfanswm staff |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 55 | 0 | 3 | 3 | 12 | 15 | 22 | 0 | 0 | 55 |
| Conwy | 159 | 9 | 34 | 52 | 11 | 11 | 40 | 1 | 1 | 159 |
| Sir Ddinbych | 254 | 27 | 33 | 64 | 33 | 27 | 65 | 0 | 5 | 254 |
| Sir y Fflint | 84 | 21 | 22 | 26 | 2 | 5 | 5 | 0 | 3 | 84 |
| Gogledd Gwynedd | 123 | 0 | 6 | 24 | 14 | 15 | 63 | 0 | 1 | 123 |
| De Gwynedd | 75 | 0 | 9 | 18 | 5 | 7 | 36 | 0 | 0 | 75 |
| Wrecsam | 84 | 22 | 25 | 26 | 0 | 4 | 5 | 0 | 2 | 84 |
| **Cyfanswm** | **834** | **79** | **132** | **213** | **77** | **84** | **236** | **1** | **12** | **834** |
| Cyfanswm Gwynedd | 198 | 0 | 15 | 42 | 19 | 22 | 99 | 0 | 1 | 198 |

**Sgiliau Siarad Cymraeg y Staff 2017**

| Staff wedi'u lleoli yn | Cyfanswm swyddi | Deiliad y Swydd ar Lefel 0 | Deiliad y Swydd ar Lefel 1 | Deiliad y Swydd ar Lefel 2 | Deiliad y Swydd ar Lefel 3 | Deiliad y Swydd ar Lefel 4 | Deiliad y Swydd ar Lefel 5 | Deiliad y Swydd ar Lefel 6 | Dim asesiad na hunan-asesiad wedi'i wneud | Cyfanswm staff |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 57 | 2 | 4 | 5 | 11 | 12 | 24 | 0 | 1 | 57 |
| Conwy | 151 | 11 | 47 | 47 | 12 | 12 | 42 | 1 | 3 | 151 |
| Sir Ddinbych | 266 | 30 | 27 | 68 | 31 | 31 | 69 | 0 | 10 | 266 |
| Sir y Fflint | 90 | 23 | 18 | 28 | 2 | 5 | 6 | 0 | 8 | 90 |
| Gogledd Gwynedd | 119 | 1 | 5 | 21 | 13 | 13 | 66 | 0 | 0 | 119 |
| De Gwynedd | 77 | 0 | 9 | 18 | 5 | 7 | 37 | 0 | 1 | 77 |
| Wrecsam | 84 | 23 | 23 | 29 | 0 | 4 | 5 | 0 | 0 | 84 |
| **Cyfanswm** | **843** | **89** | **108** | **215** | **74** | **84** | **249** | **1** | **23** | **843** |
| Cyfanswm Gwynedd | 196 | 1 | 14 | 39 | 18 | 20 | 103 | 0 | 1 | 196 |

DRAFT

| Data Cyflenwi Gwasanaethau | | Ymateb | | Atal | |
|---|---|---|---|---|---|
| **1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017** | | **Tanau mewn Cartref*** | **Gwrthdawiadau Traffig ar y Ffyrdd**** | **Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref***** | **Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref gan Fudiadau Gwirfoddol** |
| **Oedran** | Dan 16 | **15** | **17** | **6888** | **99** |
| | 16-24 | **13** | **42** | **3192** | **44** |
| | 25-34 | **20** | **38** | **3830** | **45** |
| | 35-49 | **24** | **45** | **5130** | **60** |
| | 50-54 | **4** | **16** | **1719** | **23** |
| | 55-59 | **9** | **14** | **1633** | **22** |
| | 60 a throsodd | **64** | **56** | **14108** | **356** |
| | Annysbys/Heb ddweud | **8** | **63** | **3518** | **81** |
| | | | | | |
| Nam Anabledd (hunan-ardystiad) wedi ei ardystio gan Swyddog Iechyd Galwedigaethol | Anabledd Dysgu | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | **248** | **2** |
| | Amhariad Meddyliol | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | **772** | **6** |
| | Salwch neu Gyflwr Iechyd Hirdymor* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | **1164** | **65** |
| | Anffurfiad Arall | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | **1001** | **82** |
| | Nam Corfforol | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | **3367** | **119** |
| | Nam ar y Synhwyrau | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | **1429** | **19** |
| | | | | | |
| Hil | Asiaidd/Asiaidd Prydeinig *Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieineaidd* | **3** | **1** | **234** | 0 |
| | Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 1 | **59** | 0 |
| | Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog | 0 | 0 | **83** | 0 |
| | Gwyn *Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig* | **150** | **239** | **28735** | **633** |
| | Gwyn Arall | 0 | 5 | 0 | 0 |
| | Heb ddweud | **4** | **44** | **10907** | **97** |
| | Arall | 0 | 1 | 0 | 0 |
| | | | | | |
| Crefydd a Chred | Bwdhaidd | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Cristion (Pob Enwad) | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Hindŵaidd | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Iddewig | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Mwslimaidd | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Sikh | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Unrhyw grefydd arall | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |
| | Dim crefydd | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* | *Heb ei gasglu* |

| ***TANAU: Sylwadau** |
|---|
| Echdynnwyd manylion o gronfa ddata y System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) a gydnabyddir yn genedlaethol.<br>Bu 467 o danau mewn cartrefi yn ystod y cyfnod hwn (433 wedi'u categoreiddio'n rhai damweiniol a 34 yn rhai bwriadol).<br>Cymerwyd manylion personol gan gyfanswm o 157 o bobl a fu mewn digwyddiadau tân mewn cartrefi, lle oedd yr anafiadau wedi'u categoreiddio'n rhai yn gysylltiedig â thân a heb fod yn gysylltiedig â thân.<br>Bydd y ffigyrau hyn yn amrywio o'r rhan a gyhoeddwyd fel Dangosyddion Perfformiad, oherwydd bod yr adroddiad hwn yn cynnwys archwiliadau rhagofalus, cymorth cyntaf ac achub heb anaf (pryd mae manylion personol wedi cael eu rhoi yng nghronfa ddata'r IRS). |

| ****Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd: Sylwadau** |
|---|
| Echdynnwyd manylion o gronfa ddata y System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) a gydnabyddir yn genedlaethol<br>Aeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru at gyfanswm o 215 o ddigwyddiadau'n gysylltiedig â gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Cymerwyd manylion personol gan gyfanswm o 291 o bobl wedi'u categoreiddio fel anafusion (angheuol neu anangheuol), a rhai a gafodd eu hachub heb anaf. |

| *****Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref: Sylwadau** |
|---|
| Mae'r data am Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref yn seiliedig ar 20235 o archwiliadau a gynhaliwyd (19795 gan staff GTAGC a 440 gan asiantaethau allanol). Ymwelwyd â chyfanswm o 40748 o breswylwyr (40018 gan staff GTAGC a 730 gan asiantaethau allanol). Nid yw data'n ymwneud â Chrefydd a Chred, Cyfeiriadedd Rhywiol a Thrawsrywedd yn cael eu casglu yn ystod Archwiliad Diogelwch yn y Cartref. |

# ADRAN 8

## BETH A DDYWEDODD POBL ERAILL AMDANOM YN 2016-17

## Archwilio Mewnol

Cafodd Datganiad Blynyddol o Sicrwydd yr Archwiliad Mewnol 2016-17 ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym Gorffennaf 2017.

| |
|---|
| Barn yr Archwiliad Mewnol oedd fod gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru brosesau rheolaeth digonol ac effeithiol i reoli'r modd y caiff amcanion yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod o 12 mis hyd at 31ain Mawrth 2017. |

Nid oedd unrhyw argymhellion yn y categorïau critigol na phwysig. Cyflwynwyd adroddiadau i Bwyllgor Archwilio'r Awdurdod Tân ac Achub ym Gorffennaf 2017. Mae'r rhain ar gael yn:
http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337766/9-annual-statement-of-assurance-cymraeg.pdf

Cwblhawyd archwiliadau o'r canlynol:

**Adnoddau Dynol – Rheoli Presenoldeb**.
Barn yr Archwiliad: Boddhaol
**Pensiynau (Ansawdd Data)**
Barn yr Archwiliad: Boddhaol
**Diogeledd Seiber**
Yn mynd ymlaen ar hyn o bryd.

Mae'r argymhellion a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn dilyn Archwiliad 2016-17 wedi eu troi'n gynlluniau gweithredu ar gyfer gwelliant pellach.

## Swyddfa Archwilio Cymru – Adroddiad Gwella Blynyddol

Mae'r adroddiadau gwella blynyddol diweddaraf a gyhoeddwyd ar gael o'r adran gyhoeddiadau ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru https://www.wao.gov.uk. Chwiliwch am y sector tân.

DRAFT

# ADRAN 9

## GWYBODAETH ARALL

### MANYLION CYSWLLT

Cyfeiriad post: Tân ac Achub Gogledd Cymru
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Ffôn: 01745 535250

Y Wefan: www.gwastan-gogcymru.org.uk

### GWYBODAETH YCHWANEGOL

- Daeth y **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** i rym yn Hydref 2004, gan ddod yn lle'r hen Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 1947 yng Nghymru a Lloegr.
  Mae'n egluro dyletswyddau a phwerau Awdurdodau Tân ac Achub i:
  - Hybu diogelwch tân
  - Ymladd tanau
  - Diogelu pobl ac eiddo rhag tanau
  - Achub pobl o ddamweiniau traffig ar y ffyrdd
  - Ymateb i risgiau penodol eraill, megis digwyddiadau cemegol
  - Ymateb i argyfyngau ar raddfa fawr, megis ymosodiadau terfysgol

- Cyhoeddwyd **Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2016** gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016, gan ddod yn lle Fframwaith 2012 ymlaen. Mae'r ddogfen hon yn nodi gweledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

DRAFFT

- Daeth **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** i rym ar 1af Ebrill 2010. Roedd yn creu cyfundrefn statudol a oedd yn integreiddio gwelliannau tymor byr ar gyfer gwasanaethau lleol a chynllunio cymunedol ar gyfer y tymor hir. Cyhoeddwyd canllawiau penodol ynglŷn â'r elfen wella (Rhan 1) ar gyfer gwasanaethau tân ac achub gan Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2015.

- Daeth **Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2012** i rym ar Fai 21ain 2012. Mae'n gwneud yn ofynnol i awdurdodau tân ac achub gyhoeddi eu cynllun gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'r cynllun gwella yn ymwneud â hi.

- Daeth y **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** i rym yn Hydref 2006, gan ddod yn lle 70 o ddarnau o ddeddfwriaeth ar ddiogelwch tân. Mae'n gymwys i bob eiddo annomestig yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys rhannau cyffredin blociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Roedd yn cael gwared ar yr angen i fusnesau gael tystysgrifau tân, ac yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y sawl sy'n gyfrifol am y safle i ymdrin â diogelwch tân ar y safle hwnnw.

- Roedd **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn dod yn lle 100 o ddarnau o ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb. Daeth y Ddyletswydd Gyffredinol a'r dyletswyddau penodol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru i rym yn Ebrill 2011. Roedd gan gyrff a restrwyd (gan gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub) hyd at Ebrill 2012 i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol.

- Mae **Deddf Argyfyngau Sifil 2004** yn darparu un fframwaith ar gyfer amddiffyniad sifil i argyfyngau mawr sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol, yr amgylchedd neu i ddiogelwch. Mae Gwasanaethau Tân ac Achub yn ymatebwyr 'Categori 1' dan y ddeddf hon.

- Daeth **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** i rym ar y 1af Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

- **Cangen Tân yn Llywodraeth Cymru**
  http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/fire/
  ?skip=1&lang=cy

- **Swyddfa Archwilio Cymru**
  Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiadau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ac mae gofyn i hwnnw asesu pa mor debygol yw'r Awdurdod o barhau i wella, a ph'un ai yw'r Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau ac yn gweithredu'n unol â'r canllawiau perthnasol. Mae Archwilwyr hefyd yn cydweithio ag awdurdodau tân trwy Gymru i gyflwyno rhaglen o archwiliadau ariannol a gwerth am arian. http://audit.wales/cy

- **Trwydded i Atgynhyrchu Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus**
  Mae deunydd sydd â hawlfraint y Goron yn cael eu atgynhyrchu yn y ddogfen hon dan Drwydded Rhif C2010002320.

- **Ffynonellau gwybodaeth allanol a ddefnyddir wrth lunio'r ddogfen hon**
  Ystadegau Prydain ar anafiadau angheuol yn y gweithle 2016-17.
  http://www.hse.gov.uk/statistics/pdf/fatalinjuries.pdf
  Monitor ystadegau Tân Lloegr: Ebrill 2015 i Mawrth 2016.
  https://www.gov.uk/government/statistics/announcements/fire-statistics-monitor-april-2015-to-march-2016
  Ystadegau Tân Cymru 2016-17.
  http://gov.wales/statistics-and-research/fire-statistics/?lang=cy
  Stats Wales https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue
  Ystadegau Tân ac Achub CIPFA 2016 www.cipfa.org.uk

- **Cyfnodau o weithredu diwydiannol gan ddiffoddwyr tân yn ystod 2013-14**

| | |
|---|---|
| 25 Medi (12:00-16:00) | 13 Rhagfyr (18:00-22:00) |
| 01 Tachwedd (18:30-23:00) | 14 Rhagfyr (18:00-22:00) |
| 04 Tachwedd (06:00-08:00) | 24 Rhagfyr (19:00-00:00) |
| 13 Tachwedd (10:00-14:00) | 31 Rhagfyr (18:30-00:30 ar 01 Ion) |
| | 03 Ionawr (06:30-08:30) |

- **Cyfnodau o weithredu diwydiannol gan ddiffoddwyr tân yn ystod 2014-15**

| | |
|---|---|
| 02 Mai (12:00 – 17:00) | 21 Mehefin 2014 (10:00 – 17:00) |
| 03 Mai (14:00 – 02:00 ar 04 Mai) | 10 Gorffennaf (10:00 – 19:00) |
| 04 Mai (10:00 – 15:00) | 14 – 21 Gorffennaf (ysbeidiol) |
| 12 Mehefin (09:00 – 09:00 ar 13 Mehefin) | 09 – 16 Awst (ysbeidiol) |

DRAFT

## YMYRRYD OS OES METHIANT NEU FETHIANT POSIBL I GYDYMFFURFIO

Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau ymyrryd:

- dan adran 22 o **Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, gweithredu'n unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mewn achosion o'r fath, byddai adran 23 ar brotocol ymyrryd yn gymwys.
- dan adran 29 o **Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu mewn perygl o fethu, cydymffurfio â'r Mesur. Fodd bynnag, ymhob amgylchiad heblaw'r rhai mwyaf eithriadol, ni chaiff Gweinidogion Cymru ond ymyrryd ar ôl iddynt gynnig cefnogaeth wirfoddol i'r Awdurdod dan adran 28 o'r Mesur.

DRAFFT

## YMGYNGHORIADAU

| | Ymgynghoriad | Cyhoeddi | Am y flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Cynllun Lleihau Risg Llawn (egwyddorion) | Haf 2009 | | |
| Cynllun Lleihau Risg a Gwella Llawn (manwl) | Haf 2010 | Mis Hydref 2010 | 2011-12 |
| Cynllun Gweithredu Blynyddol | Haf 2011 | Mis Hydref 2011 | 2012-13 |
| Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14 a pharatoadau amlinellol ar 2014-15 | Tymor yr hydref 2012 | Mawrth 2013 | 2013-14 |
| Amcanion Gwella ar gyfer 2014-15 gan gynnwys strategaeth ariannol newydd | Tymor yr hydref 2013 | Mawrth 2014 | 2014-15 |
| Amcanion Gwella ar gyfer 2015-16 | Tymor yr hydref 2014 | Mawrth 2015 | 2015-16 |
| Amcanion Gwella ar gyfer 2016-17 | Tymor yr hydref 2015 | Mawrth 2016 | 2016-17 |
| Amcanion Gwella a llesiant ar gyfer 2017-18 | Tymor yr hydref 2016 | Mawrth 2017 | 2017-18 |
| Amcanion Gwella a llesiant ar gyfer 2018-19 | Tymor yr hydref 2017 | Mawrth 2018 | 2018-19 |

DRAFFT

# ADRAN 10

## EGLURO TERMAU

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn dod o fewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simneiau ac sydd yn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli, ayyb.<br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt |
| Tanau eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn rhai simnai nac yn brif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br><br>Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau simnai | Dyma danau mewn adeiladau sydd wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>• Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb<br>• Trychinebau mawr;<br>• Digwyddiadau domestig e.e. dwr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb<br>• Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Anafiadau tân | Er cysondeb, ers Ebrill 2009 drwy'r Deyrnas Unedig, caiff anafusion tân eu cofnodi dan bedwar categori difrifoldeb:<br><br>i) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae anafiadau'n ymddangos yn ddifrifol;<br>ii) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn fach;<br>iii) rhoddwyd cymorth cyntaf i'r dioddefwr yn y fan a'r lle yn unig, ac nid oedd angen rhagor o driniaeth;<br>iv) argymhellwyd archwiliad rhagofalus – aeth y person i'r ysbyty neu cafodd gyngor i weld meddyg rhag ofn, ond nid oedd unrhyw anaf neu drallod amlwg . |
| Galwad ddiangen (canllaw cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br><br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi mynd yno, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen - Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – Larymau mwg awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fo larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', (er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |

DRAFT